

CBAC Lefel 2

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol



Cynnwys

	Tudalen
Asesiad Allanol:	
Papur Cwestiynau Prawf Dewis Lluosog	5
Cynllun Marcio	20
Asesiad Mewnol:	
Meithrinfeydd Derwen	22
Pecyn i Aseswyr	22
Pecyn i Ymgeiswyr	24
Senario	25
Cwestiynau Asesu Set A	27
Cynllun Marcio	32
Dechrau'n Deg	37
Pecyn i Aseswyr	37
Pecyn i Ymgeiswyr	39
Senario	40
Cwestiynau Asesu Set A	42
Cynllun Marcio	47
Malik	53
Pecyn i Aseswyr	53
Pecyn i Ymgeiswyr	55
Senario	56
Cwestiynau Asesu Set A	58
Cynllun Marcio	62
Datganiad Dilysrwydd	67



Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

ASESIAD ALLANOL ENGHREIFFTIOL

Prawf Dewis Lluosog

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Asesiad Allanol

Prawf cadarnhaol enghreifftiol 1 – fersiwn papur

Enw'r ymgeisydd:	Enw'r ganolfan:
Rhif yr ymgeisydd:	Rhif y ganolfan:

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhaid i chi ddefnyddio beiro du neu las.

Mae pob cwestiwn yn dangos pedwar ateb posibl, dim ond un ateb sy'n gywir.

Rhaid i chi roi cynnig ar bob cwestiwn drwy nodi'r ymateb cywir ar y papur: a, b, c neu ch.

Ticiwch "✓" **un** ymateb cywir.

Mae'r papur yn cynnwys **50** o gwestiynau.

Mae'r papur cwestiynau hwn yn eiddo i CBAC a rhaid ei ddychwelyd ar ôl cwblhau'r asesiad.

1. Pa deddfwriaeth sy'n cynnig yr amddiffyniad mwyaf (*greatest protection*) yn erbyn gwahaniaethu yng Nghymru?

(a)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	
(b)	Deddf Plant 1989 a 2004	
(c)	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	
(ch)	Deddf Cydraddoldeb 2010	

2. Mae teuluoedd yn cael eu gwahodd i ymweld â lleoliadau gofal plant yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth am eu cefndiroedd diwylliannol. Enghraifft o beth yw hyn?

(a)	Gwerthfawrogi a dathlu unigolrwydd (<i>individuality</i>), gwahaniaethu ac amrywiaeth	
(b)	Dilyn anghenion, hawliau a safbwyntiau'r plentyn	
(c)	Hybu iechyd a llesiant y plant mewn ffordd weithredol	
(ch)	Hybu dull plant ganolog mewn ffordd weithredol	

3. Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n cynnig y disgrifiad **gorau** o berson â 'chyfrifoldeb rhiant'?

(a)	Person â'r hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau am ofal a magwraeth (<i>upbringing</i>) plentyn	
(b)	Person â chyfrifoldeb am reoli arian a ffioedd meithrinfa plentyn	
(c)	Person â chyfrifoldeb am gasglu plentyn o'i leoliad gofal plant	
(ch)	Person â'r hawl i gael mynediad at blentyn am ei fod yn rhiant biolegol	

4. Mae ffotograffydd yn dod i'r lleoliad gofal plant er mwyn tynnu lluniau ar gyfer llyfryn cyhoeddusrwydd (*publicity brochure*). Pa un o'r canlynol mae'n **rhaid** ei wneud cyn yr ymweliad?

(a)	Sicrhau bod yr ystafell yn daclus a bod arddangosfeydd newydd ar y waliau fydd i'w gweld yn y lluniau	
(b)	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn eu gwisgoedd (<i>uniforms</i>) yn barod i gael tynnu eu llun	
(c)	Sicrhau bod y rhieni wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig i dynnu llun eu plentyn	
(ch)	Sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael i dynnu llun ohonyn nhw	

5. Mae Ellie eisiau cerdded i lawr grisiau'r Cylch Meithrin heb gymorth. Mae'r gweithiwr gofal plant yn poeni bod risg yn gysylltiedig â hyn oherwydd hyd yn hyn mae rhywun bob amser wedi gafael yn ei llaw.

Pa gamau gweithredu dylai'r gweithiwr gofal plant eu cymryd?

(a)	Dweud "na" gan na fyddai wedi trafod y risgiau gyda'i reolwr llinell	
(b)	Gadael i Ellie wneud hyn gan ei bod yn benderfynol a chynnig cefnogaeth i blentyn arall yn ei lle	
(c)	Dweud "na" wrth Ellie a mynnu ei bod yn gafael yn ei llaw gan fod hynny'n lleihau unrhyw risgiau posibl	
(ch)	Gadael i Ellie wneud hyn, gan ei goruchwyllo'n ofalus ac ymyrryd os bydd angen.	

6. Pa ffordd o weithio yw'r ffordd **orau** er mwyn sicrhau llesiant a chynhwysiant mewn lleoliad gofal plant?

(a)	Darparu amgylchedd diogel a magwrus (<i>nurturing</i>) gyda pharch amlwg tuag at bawb	
(b)	Darparu cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol drwy greu amgylchedd ar gyfer ymddygiad da	
(c)	Darparu amgylchedd cymdeithasol lle mae plant yn gallu dewis gweithgareddau maen nhw'n eu mwynhau	
(ch)	Darparu cyfleoedd lle mae gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r lleoliad yn gallu rhannu mentrau	

7. Beth yw'r rheswm **mwya**f pwysig pam dylai lleoliad gofal plant gydnabod a chefnogi'r Gymraeg?

(a)	Er mwyn bodloni amcanion cynllunio wythnosol ar gyfer y lleoliad	
(b)	Er mwyn gwneud defnydd llawn o sgiliau Cymraeg aelod o staff	
(c)	Er mwyn plesio'r plant, gan ei fod yn rhywbeth mae'r plant yn ei fwynhau	
(ch)	Er mwyn rhoi sgiliau iaith ychwanegol i'r plant ar gyfer y dyfodol	

8. Mae'r broses o gaffael iaith mewn lleoliad gofal plant yn cael ei ddisgrifio **orau** fel proses lle bydd plentyn yn:

(a)	Dysgu iaith newydd drwy wersi er mwyn cyfathrebu'n effeithiol	
(b)	Dysgu rheolau gramadegol (<i>grammatical rules</i>) iaith newydd er mwyn strwythuro brawddegau	
(c)	Dysgu sut i ddefnyddio iaith drwy weithgareddau chwarae er mwyn cyfathrebu'n effeithiol	
(ch)	Dysgu sut i ysgrifennu mewn brawddegau mewn iaith newydd	

9. Pam mae'n bwysig cytuno ar nodau cyflawnadwy a ffiniau rhwng y plentyn, teuluoedd a gofalwyr sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant ifanc?

(a)	Er mwyn cefnogi'r plentyn i gydnabod sut i ymddwyn gyda phobl eraill o'i amgylch	
(b)	Er mwyn sicrhau bod ymyrraeth yn gyson â chynlluniau cefnogi ymddygiad, ffyrdd o weithio gafodd eu cytuno a gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith	
(c)	Er mwyn rhoi gwybod i'r bobl briodol am unrhyw bryderon lle mae anawsterau parhaus wrth hybu ymddygiad cadarnhaol	
(ch)	Er mwyn creu amgylchedd hapus a digyffro i bob plentyn yn y lleoliad	

10. Pa un o'r canlynol sy'n enghraifft o drawsnewid y gall plentyn ei gael?

(a)	Dechrau meithrinfa llawn amser neu ran amser	
(b)	Aros yn rheolaidd gyda'i fam-gu a'i dad-cu/nain a thaid	
(c)	Mynd i sesiwn mam a'i phlentyn	
(ch)	Mynd i lan y môr am y diwrnod	

11. Mae rholio drosodd yn garreg filltir ddisgwyliedig (*expected*) o ddatblygiad corfforol baban. Beth yw'r cam datblygiad disgwyliedig **nesaf**?

(a)	Cropian neu lusgo ei hun ar draws y llawr	
(b)	Eistedd i fyny heb gymorth heb ddisgyn	
(c)	Cerdded o amgylch y dodrefn heb gymorth	
(ch)	Tynnu ei hun i fyny ar ei bedwar (<i>all fours</i>)	

12. Pa un o'r ffactorau canlynol sydd **fwyaf** tebygol o effeithio ar iechyd a llesiant plentyn?

(a)	Bod eisiau bwyd a diffyg cwsg	
(b)	Bod heb ei olchi a heb ddillad glân	
(c)	Diffyg cwsg a bod heb ei olchi	
(ch)	Dillad ac esgidiau ddim yn ffitio'n iawn	

13. At ba weithiwr gofal iechyd proffesiynol y byddai pediatregydd neu feddyg teulu yn atgyfeirio (*refer*) plentyn â phroblemau symudedd?

(a)	Therapydd chwarae	
(b)	Therapydd iaith a lleferydd	
(c)	Seicolegydd addysg	
(ch)	Ffisiotherapydd	

14. Mae Lena yn dewis ei gweithgareddau chwarae ei hun yn lle cymryd rhan yn y gweithgaredd grŵp. Mae ei gweithiwr allweddol yn penderfynu gadael iddi barhau i wneud hyn. Beth yw'r disgrifiad **gorau** o hyn?

(a)	Mae Lena yn cael dewis rhydd a'r cyfle i gael mwy o hwyl	
(b)	Mae Lena yn cael cynnig y cyfle i ddysgu sgiliau ychwanegol	
(c)	Mae Lena wedi meithrin perthynas gadarnhaol â'i gweithiwr allweddol	
(ch)	Mae Lena yn cael profiad dysgu cadarnhaol	

15. Beth yw'r **prif** reswm pam mae lleoliad gofal plant yn darparu 'cyfnodau tawel' yn ogystal â gweithgarwch corfforol?

(a)	Sicrhau bod gan y staff amser i drefnu gweithgareddau newydd ar gyfer y plant	
(b)	Rhoi amser i'r plant ddod at eu hunain a phrosesu eu profiadau	
(c)	Rhoi amser i'r staff gwblhau taflenni cofnod dyddiol ar gyfer pob plentyn	
(ch)	Sicrhau bod gan y plant amser i gael byrbryd ac i ystyried pa weithgaredd i'w wneud nesaf	

16. Rydych chi allan yn yr awyr agored gyda grŵp o blant a dau aelod arall o staff. Mae un o'r plant yn brysur yn chwarae ac rydych yn sylwi ei fod wedi ei wlychu ei hun. Beth dylech chi ei wneud?

(a)	Galw ar aelod o'r staff er mwyn mynd â'r plentyn i mewn a'i newid ar unwaith	
(b)	Dod â dillad glân allan fel na fydd yn rhaid i'r plentyn roi'r gorau i chwarae	
(c)	Cadarnhau bod digon o staff yn yr ardal awyr agored a mynd â'r plentyn i mewn yn dawel i'w newid	
(ch)	Aros tan bydd yr holl blant yn mynd yn ôl i mewn, wedyn newid y plentyn	

17. Beth mae'n rhaid i blant ei wneud i gael dannedd a deintgig iach?

(a)	Brwsio eu dannedd ar ôl pob pryd bwyd, am hyd at 2 funud gan ddefnyddio past dannedd fflworid a defnyddio dŵr i olchi eu ceg	
(b)	Brwsio eu dannedd bob bore a bob nos ac ar ôl bwyta bwydydd melys am hyd at 2 funud	
(c)	Brwsio eu dannedd ddwywaith y dydd, gan ddefnyddio past dannedd fflworid am hyd at 2 funud, heb ddefnyddio dŵr i olchi eu ceg	
(ch)	Brwsio eu dannedd ddwywaith y dydd, am hyd at 2 funud gan ddefnyddio past dannedd fflworid a defnyddio dŵr i olchi eu ceg	

18. Yn ôl canllawiau'r llywodraeth, pa laeth/llefrith sydd **ddim** yn cael ei argymhell ar gyfer plant o dan bump oed?

(a)	Llaeth/llefrith cyflawn	
(b)	Llaeth/llaeth hanner sgim	
(c)	Llaeth/llefrith sgim	
(ch)	Cyfuniad o laeth/llefrith hanner sgim a llaeth/llefrith cyflawn	

19. Pa un o'r gweithgareddau hyn sy'n cael eu cynnal mewn lleoliad gofal plant fyddai'r **lleiaf** tebygol o annog y plant i wneud dewisiadau bwyd iach?

(a)	Gwneud cebab ffrwythau gyda'r plant	
(b)	Gwneud teisennau creision yd gyda'r plant	
(c)	Sicrhau bod dewis o fyrbrydau iach ar gael	
(ch)	Dylunio plot llysiau yn yr awyr agored	

20. Pa ddogfen dylai rheolwr meithrinfa ei defnyddio fel arweiniad wrth lunio polisi meddyginiaeth ar gyfer y lleoliad?

(a)	Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen 2015	
(b)	Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2016	
(c)	Deddf Iechyd a Diogelwch 1974	
(ch)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	

21. Beth yw prif bwrpas disgrifiad swydd i'r gweithiwr cyflogedig?

(a)	Amlinellu polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad	
(b)	Amlinellu pwy sy'n gyfrifol am gwblhau dyletswyddau penodol	
(c)	Amlinellu disgwyliadau a chyfyngiadau (<i>expectations and limitations</i>) dyletswyddau a chyfrifoldebau yr unigolyn ei hun	
(ch)	Amlinellu rolau swydd er mwyn atal gwrthdaro a straen yn yr amgylchedd gwaith	

22. Mae aelod newydd o staff wedi dechrau gweithio mewn lleoliad gofal plant. Yn y lleoliad, maen nhw'n gofyn iddo ddarllen polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad. Pam mae'n bwysig iawn i'r aelod o staff wneud hyn?

(a)	Er mwyn i'r rheolwr allu llofnodi ei waith papur sefydlu	
(b)	Er mwyn iddo allu llofnodi ei gontract cyflogaeth	
(c)	Er mwyn iddo wybod sut dylai gyflawni ei rôl	
(ch)	Er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'i gyflog a'i hawl i wyliau	

23. Pam mae trefniadau 'gweithio amlasiantaethol' yn bwysig?

(a)	Er mwyn dangos gwaith tîm effeithiol ac effeithlon yn y lleoliad	
(b)	Er mwyn darparu gofal di-dor i'r plant sy'n mynd i'r lleoliad	
(c)	Er mwyn cael canlyniadau cyflymach i bob plentyn sy'n mynd i'r lleoliad	
(ch)	Er mwyn galluogi gweithwyr gofal plant i rannu ymarfer da o fewn y tîm	

24. Pa un o'r canlynol sy'n cyfeirio at ymdrin â gwybodaeth yn ddiogel, gan gynnwys storio, cofnodi, cadw cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth?

(a)	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989	
(b)	Deddf Iechyd a Diogelwch 1974	
(c)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	
(ch)	Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018	

25. Pa dull sy'n cael ei ystyried y dull mwyaf diogel ar gyfer storio gwybodaeth am blant a staff mewn lleoliad gofal plant?

(a)	Ar ffurf electronig ar gyfrifiadur wedi'i ddiogelu â chyfrinair	
(b)	Copiâu papur mewn ffeil blwch mewn swyddfa	
(c)	Ar ffurf electronig ar ddyfais storio sy'n gallu cael ei thynnu	
(ch)	Copiâu papur mewn ffeil blwch yn ystafell y staff	

26. Mae aelod o'r staff wedi cyfeirio at blentyn yn y lleoliad ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel:

(a)	Gwall dilys a mater disgyblu	
(b)	Mater disgyblu a mater cyfrinachedd	
(c)	Mater diogelu data a gwall cyffredinol	
(ch)	Gwall dilys a mater cyfrinachedd	

27. Beth yw **prif** bwrpas Safonau'r Gymraeg 2018?

(a)	Sicrhau dull gweithredu amlddiwylliannol (<i>multicultural</i>) ym mhob lleoliad	
(b)	Gwneud pob plentyn sy'n mynd i leoliadau meithrin yng Nghymru yn ddwyieithog	
(c)	Hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad	
(ch)	Annog mwy o blant i fynd i leoliadau cyfrwng Cymraeg	

28. Pa un o'r canlynol sy'n cynnig y disgrifiad **gorau** o bwrpas sesiynau goruchwyllo ac arfarnu?

(a)	Cyfle i'r rheolwyr adolygu cynnydd eu staff a chynllunio ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus pellach	
(b)	Cyfle i aelodau'r staff ofyn cwestiynau am eu hawl i wyliau a chyfleoedd i gael dyrchafiad	
(c)	Cyfle i drafod plant sy'n wynebu anawsterau yn y lleoliad a gweithdrefnau newydd i roi cynnig arnynt	
(ch)	Cyfle i'r rheolwyr a'r staff gydweithio i ddatblygu'r staff ac i drafod unrhyw faterion mae angen ymdrin â nhw	

29. Pa un o'r gosodiadau hyn yw'r disgrifiad **gorau** o 'e-ddiogelwch' mewn lleoliad gofal plant?

(a)	Amddiffyniad rhag diffygion trydanol mewn perthynas â defnyddio cyfarpar electronig mewn ffordd ddiogel a chyfrifol	
(b)	Amddiffyniad rhag unrhyw ddefnydd o feddalwedd gyfrifiadurol sydd ddim yn briodol i oed y plentyn	
(c)	Amddiffyniad rhag achosion lle y bydd pobl yn gweld data personol a gaiff eu storio ar y cyfrifiaduwr yn y lleoliad	
(ch)	Amddiffyn y plant a'r unigolyn rhag niwed drwy hyrwyddo a chymhwyso defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ar-lein	

30. Mae plentyn wedi dod i'r ysgol feithrin heb ei olchi, yn gwisgo dillad amhriodol ac eisiau bwyd. Beth mae hyn **fwyaf** tebygol o'i ddangos:

(a)	Camdriniaeth emosiynol	
(b)	Camdriniaeth rywiol	
(c)	Esgeulustod	
(ch)	Camdriniaeth gorfforol	

31. Beth yw **prif** rôl eiriolwr plant (*children's advocate*) mewn achos diogelu?

(a)	Sicrhau bod y rhieni yn gwybod beth yw anghenion a dymuniadau'r plentyn cyn i'r eiriolwr ddod yn rhan o'r broses	
(b)	Sicrhau bod y plentyn yn deall y gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn a beth sy'n mynd i ddigwydd	
(c)	Sicrhau bod y plentyn yn gallu mynegi ei ddymuniadau a'i deimladau a bod yr eiriolwr yn siarad ar ei ran	
(ch)	Sicrhau bod y rhieni yn cael eu cynrychioli a bod yr eiriolwr yn siarad ar eu rhan	

32. Beth yw'r rheswm **mwyaf** pwysig dros ddilyn arfer plant ganolog mewn achos diogelu?

(a)	Er mwyn ystyried dymuniadau'r plentyn yn y broses gwneud penderfyniadau	
(b)	Er mwyn sicrhau bod rheolwyr mewn lleoliadau yn gallu rhoi mewnbwn (<i>have an input</i>) gan eu bod yn adnabod y plant yn dda	
(c)	Fel bod y rhieni yn gallu gwneud penderfyniadau am eu plant eu hunain	
(ch)	Fel bod y gweithwyr proffesiynol yn gallu allu defnyddio eu harbenigedd i wneud penderfyniadau	

33. Pa ymarfer mae'n rhaid ei gael fel bod gweithwyr gofal plant yn cael eu hamddiffyn mewn lleoliadau gofal plant?

(a)	Sicrhau bob amser bod manylion adnabod ymwelydd yn cael eu cadarnhau cyn iddynt ddod i mewn i'r lleoliad	
(b)	Sicrhau bob amser bod gan unrhyw un sy'n casglu plentyn o'r lleoliad yr awdurdod i wneud hynny	
(c)	Sicrhau bob amser bod giât yr ardal chwarae awyr agored yn y lleoliad wedi'i chloi	
(ch)	Sicrhau bob amser bod o leiaf dau aelod o'r staff ym mhob ystafell ar unrhyw un adeg	

34. Beth dylai gweithiwr gofal plant ei wneud ar ôl i blentyn wneud datgeliad?

(a)	Rhoi manylion y datgeliad ar lafar i'r rheolwr llinell o fewn 48 awr	
(b)	Rhoi gwybod ar lafar i'r person dynodedig (<i>designated</i>) yn y lleoliad am y datgeliad o fewn 24 awr	
(c)	Rhoi manylion ysgrifenedig ar unwaith i'r person dynodedig yn y lleoliad	
(ch)	Rhoi manylion ysgrifenedig i'r rheolwr llinell cyn diwedd y diwrnod gwaith	

35. Beth yw ystyr y term 'chwythu'r chwiban'?

(a)	Pan fydd person yn hel clecs (<i>gossips</i>) y tu allan i'r lleoliad gofal plant	
(b)	Pan fydd person yn trafod materion gyda'r rhieni y tu allan i'r lleoliad gofal plant	
(c)	Pan nad yw person yn dilyn y rheolau mewn perthynas â chyfrinachedd	
(ch)	Pan fydd person yn ymateb i ymarfer anfoesol drwy roi gwybod i rywun amdany'n nhw	

36. Pa gamau gweithredu y mae'n rhaid i aelod o staff bob amser eu **hosgoi** os bydd wedi sylwi bod plentyn yn aml yn gwisgo dillad brwnt a bod ganddo gewyn brwnt pan fydd yn cyrraedd y lleoliad?

(a)	Cofnodi ei phryderon a rhoi gwybod amdanynt i reolwr y feithrinfa ar unwaith	
(b)	Siarad â'r rhieni wrth ddrws y feithrinfa pan fyddan nhw'n gollwng eu plentyn	
(c)	Trafod ei phryderon â rheolwr y feithrinfa pan fyddan nhw'n cael seibiant	
(ch)	Newid dillad a chewyn y plentyn cyn gynted ag y bydd yn cyrraedd y feithrinfa	

37. Y person canlynol sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn y gweithle:

(a)	Y person dynodedig yn y lleoliad	
(b)	Pob aelod o staff sy'n gweithio yn y lleoliad	
(c)	Y rheolwr a'r dirprwy reolwr	
(ch)	Y gofalwr a'r uwch aelodau o staff	

38. Pa un o'r gosodiadau yw'r disgrifiad **gorau** o ystyr 'asesiad risg'?

(a)	Y broses sy'n cael ei defnyddio gan y rheolwr i nodi peryglon a risgiau mewn lleoliad	
(b)	Proses sy'n cael ei defnyddio gan y rheolwr i nodi lefel y peryglon a'r risgiau a gweithredu arnyn nhw	
(c)	Y broses sy'n cael ei defnyddio i nodi peryglon, ac i leihau'r lefel o niwed drwy gamau gweithredu priodol	
(ch)	Y ddogfennaeth (<i>documentation</i>) a'r broses sy'n cael eu defnyddio i reoli diogelwch mewn lleoliad	

39. Pa un o'r gosodiadau yw'r disgrifiad **gorau** o bwysigrwydd cofnodi digwyddiadau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch mewn lleoliad?

(a)	Fel bod rhieni yn gallu ymddiried mwy yn y lleoliad a'i staff	
(b)	Fel bod staff yn gwybod wybod beth sydd i'w ddisgwyl ganddyn nhw os bydd digwyddiad	
(c)	Er mwyn cadw'r plant a'r staff yn ddiogel bob amser	
(ch)	Er mwyn gallu gwerthuso digwyddiadau ac atal damweiniau pellach	

40. Pa un o'r rhain yw prif ddyletswydd a dyletswydd gyffredinol (*overall duty*) y cyflogwr mewn lleoliad gofal plant mewn perthynas â diogelwch tân?

(a)	Sicrhau bod cofnodion wedi'u gwneud o bob ymarfer tân	
(b)	Sicrhau bod y staff yn gwybod y gweithdrefnau ar gyfer ymarfer tân ac yn cynnal ymarfer tân	
(c)	Sicrhau diogelwch plant, staff ac ymwelwyr â'r lleoliad	
(ch)	Sicrhau eu bod yn archwilio unrhyw ddyfeisiau diffodd tân (<i>fire extinguisher</i>) bob blwyddyn	


41. Beth yw ystyr y term "symud a chodi a chario"?

(a)	Unrhyw weithgaredd mae gweithwyr yn ei wneud sy'n cynnwys eitemau o gyfarpar mawr yn y lleoliad	
(b)	Gweithgaredd sy'n cael ei wneud yn dilyn deddfwriaeth allweddol er mwyn cynnal a chadw cyfarpar	
(c)	Gweithgaredd sy'n cynnig canllawiau clir ar gyfer symud cyfarpar	
(ch)	Unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys codi, gostwng, cario, gwthio, tynnu cyfarpar	

42. I bwy mae'n rhaid rhoi gwybod os bydd achos o glefyd heintus yn cael ei gadarnhau neu'n cael ei amau mewn lleoliad gofal plant?

(a)	Y Tîm Diogelu Iechyd Lleol	
(b)	Yr Ymwelydd Iechyd yn y ganolfan iechyd	
(c)	Swyddog Iechyd yr Amgylchedd	
(ch)	Y Swyddog Iechyd a Diogelwch	

43. Nid yw'r camau o'r Rhaglen Golchi Dwylo Effeithiol yn cael eu dangos yn y drefn gywir yma.



(h) www.wales.nhs.uk - <https://goo.gl/images/AQeegh>

Y drefn gywir yw:

(a)	Gwlychu, rhoi sebon, rhwbio'n drylwyr i wahanol gyfeiriadau, golchi, sychu	
(b)	Gwlychu, rhwbio'n drylwyr i wahanol gyfeiriadau, rhoi sebon, golchi, sychu	
(c)	Rhoi sebon, rhwbio'n drylwyr i wahanol gyfeiriadau, gwlychu, golchi, sychu	
(ch)	Gwlychu, rhoi sebon, golchi, rhwbio'n drylwyr i wahanol gyfeiriadau, sychu	

44. Mae Louise wedi dechrau gweithio yn yr ystafell fabanod ac yn ystod ei chyfnod sefydlu, gwnaeth ei rheolwr bwysleisio ei bod yn bwysig iawn gwisgo menig untro a ffedog bob amser. Pam?

(a)	Er mwyn sicrhau bod ei gwisg yn aros yn lân ac yn hylan	
(b)	Er mwyn sicrhau hylendid da ac atal heintiau rhag lledaenu	
(c)	Er mwyn sicrhau bod y staff yn sylweddoli ei bod yn gweithio yn yr ystafell fabanod	
(ch)	Er mwyn sicrhau glendid (<i>cleanliness</i>) yr ardal newid cewynnau	

45. Beth yw'r rheswm **mwya**f pwysig bod mesurau diogelwch bwyd yn eu lle mewn lleoliad gofal plant?

(a)	Er mwyn sicrhau bod digon o fwyd i bob plentyn sy'n mynd i'r lleoliad	
(b)	Er mwyn sicrhau bod yr holl fwyd yn edrych ac yn blasu'n dda ac nad yw'n cael ei wastraffu	
(c)	Er mwyn sicrhau na fydd y plant yn cael gwenwyn bwyd	
(ch)	Er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl rhoi tystysgrif hylendid bwyd i'r lleoliad	

46. Gofynnwyd i aelod o'r staff baratoi byrbrydau i'r plant. Pam ei bod yn bwysig sicrhau bod pob arwyneb, darn o offer a chyfarpar yn lân cyn dechrau?

(a)	Er mwyn arbed amser a sicrhau nad oes angen stopio a golchi llestri wrth fynd ymlaen	
(b)	Er mwyn sicrhau bod popeth ganddi sydd ei angen i wneud y byrbrydau	
(c)	Er mwyn sicrhau bod y byrbrydau yn cael eu paratoi mewn ffordd hylan	
(ch)	Er mwyn sicrhau bod y byrbrydau yn cael eu gweini mewn powlenni glân	

47. Fel un o'u gweithgareddau, mae'r plant mewn lleoliad yn blasu ffrwythau. Pa liw bwrdd torri dylid ei ddefnyddio i baratoi'r ffrwythau?

(a)	Glas	
(b)	Gwyrdd	
(c)	Coch	
(ch)	Melyn	

48. Ble dylid storio sylweddau sy'n dangos yr arwydd hwn mewn lleoliad gofal plant?



(a)	Yn y gegin	
(b)	Yn ystafell y staff	
(c)	Ar silff uchel yn yr ystafell chwarae	
(ch)	Mewn cwpwrdd wedi'i gloi	

49. Mae ymwelydd yn cyrraedd meithrinfa ac mae gweithiwr gofal plant wedi agor y drws. Beth dylai ei wneud nesaf?

(a)	Gofyn iddo ddod i mewn i'r lleoliad a mynd â'r ymwelydd i ble mae am fynd	
(b)	Gofyn am fanylion adnabod, ei gofrestru a threfnu iddo siarad â pherson priodol	
(c)	Ei gofrestru yn y lleoliad, wedyn ei anfon i'r cyfeiriad cywir er mwyn dod o hyd i'r person sydd ei angen arno	
(ch)	Ei adael ar ei ben ei hun wrth y drws a mynd i chwilio am y rheolwr	

50. Mae aelod o'r staff yn teimlo dan bwysau (*stressed*) oherwydd bod ei llwyth gwaith yn cynyddu. Beth dylai ei wneud fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau ei llesiant?

(a)	Siarad â ffrind neu aelod arall o'r staff	
(b)	Siarad â'r rheolwr llinell neu oruchwyliwr y lleoliad	
(c)	Gweithio diwrnod hirach er mwyn sicrhau ei bod yn cwblhau'r holl waith	
(ch)	Cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn gorffwys a rhoi cynnig arall arni	

CYNLLUN MARCIO: PRAWF DEWIS LLUOSOG

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr allwedd ateb cywir ar gyfer pob cwestiwn yn y prawf ac yn nodi'r cyfeirnod uned a'r cyfeirnod maen prawf asesu mae pob cwestiwn yn gysylltiedig ag ef.

Cwestiwn	Allwedd ateb cywir	Uned	Meini prawf asesu
1	ch	1	1.1
2	a	1	3.3
3	a	1	4.12
4	c	1	4.13
5	ch	1	5.3
6	a	1	6.5
7	ch	1	9.3 Y Gymraeg
8	c	1	9.4
9	b	1	10.3
10	a	1	11.1
11	b	2	1.1
12	a	2	1.2
13	ch	2	1.8
14	ch	2	1.14
15	b	2	2.7
16	c	2	6.2
17	c	2	6.4
18	c	2	7.3
19	b	2	7.7
20	b	2	8.1
21	c	3	1.3
22	c	3	1.6
23	b	3	2.3
24	ch	3	4.3
25	a	3	4.4
26	b	3	5.3
27	c	3	6.3
28	ch	3	6.11
29	ch	4	1.2
30	c	4	1.3
31	c	4	2.2
32	a	4	2.4
33	ch	4	2.9 gweithwyr
34	c	4	4.3
35	ch	4	4.5
36	b	4	4.4
37	b	5	1.2
38	c	5	2.1
39	ch	5	2.7
40	c	5	3.2
41	ch	5	4.1 symud a chodi a chario
42	a	5	5.6 cyflogwyr
43	a	5	5.9
44	b	5	5.10
45	c	5	6.3
46	c	5	6.5
47	b	5	6.7
48	ch	5	7.3
49	b	5	8.2
50	b	5	9.3
Cyfanswm: 50 marc			
Marc llwyddo			37/50



Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

ASESIAD MEWNOL ENGHREIFFTIOL



Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Pecyn i Aseswyr Asesiad Mewnol (unedau: 001/002) – Meithrinfeydd Derwen

Mae'r pecyn hwn i aseswyr yn cynnwys y canlynol:

- cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r aseswr
- copi o'r Pecyn i Ymgeiswyr
- y cynllun marcio.

Cyfarwyddiadau

Asesiad crynodol yw'r asesiad hwn er mwyn asesu unedau 001 a 002. Dim ond ar ôl cwblhau'r holl waith dysgu ar gyfer yr unedau hyn y dylai ymgeiswyr roi cynnig ar yr asesiad hwn.

Canlyniad yr asesiad yw **llwyddo/methu**. Mae cyfanswm o 30 o farciau ar gael. **Y marc llwyddo ar gyfer yr asesiad hwn yw 22.**

Mae'r asesiad yn cynnwys y canlynol:

- senario i'w ryddhau ymlaen llaw y mae'n rhaid ei roi i'r ymgeiswyr bythefnos cyn yr asesiad
- set o gwestiynau/tasgau i'r ymgeisydd eu sefyll. Mae 60 munud gan yr ymgeisydd i gwblhau'r cwestiynau/tasgau.

Rhaid i'r asesiad:

- gael ei farcio'n fewnol, gan staff â'r cymwysterau priodol, gan ddefnyddio'r cynlluniau marcio sydd wedi'u darparu. Gweler y fanyleb am fanylion o ran gofynion staff bod yn destun trefniadau sicrhau ansawdd mewnol, gan staff â'r cymwysterau priodol
- bod yn destun trefniadau sicrhau ansawdd/dilysu allanol gan CBAC
- cydymffurfio â'r **Amodau Asesu** isod.

Noder: lle cafodd ymatebion dilys ychwanegol eu derbyn gan y marciwr ar gyfer unrhyw gwestiwn; dylid eu cofnodi a'u cadw i'w rhannu â'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd allanol. Gwneir hyn er mwyn ategu trefniadau safoni ar draws canolfannau a bydd yn golygu ei bod yn bosibl ychwanegu ymatebion dilys ychwanegol at y cynlluniau marcio yn ddiweddarach.

Amodau asesu

Rhaid cwblhau'r asesiad hwn o dan yr amodau canlynol.

- Rhaid i'r amgylchedd lle mae'r asesiadau'n cael eu cwblhau fod yn amgylchedd sydd wedi'i reoli. Ni ddylid torri ar draws yr ymgeiswyr a/neu ddylanwadu arnyn nhw mewn unrhyw ffordd wrth iddyn nhw weithio ar y tasgau. Ond, er nad yw goruchwyliaeth lawn neu barhaus yn un o'r gofynion, mae'n rhaid i'r ganolfan allu dilysu mai ei waith ei hun yw gwaith yr ymgeisydd.
- Gall ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau cyffredin a fyddai'n gallu bod ar gael mewn sefyllfaoedd 'bywyd go iawn', er enghraifft, cyfrifiaduron personol/gliniaduron, tabledi, geiriaduron, cyfrifianellau. Ni chaniateir ffonau symudol na dyfeisiau trosglwyddo/derbyn eraill ac nid yw ymgeiswyr yn cael defnyddio'r rhyngwrwd yn ystod yr asesiad.
- Gall ymgeiswyr ddod â'r nodiadau maen nhw wedi'u gwneud ar y senario a ryddhawyd ymlaen llaw i'r asesiad. Dim ond dwy ochr A4 o nodiadau sy'n cael ei ganiatáu, a rhaid rhoi gwybod hyn i'r ymgeiswyr.
- Gall dysgwyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn terfynau amser yr asesiad. Ni ddylai aseswyr roi mewnbwn nac arweiniad i ddysgwyr yn ystod amser yr asesiad. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno.

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Asesiad Mewnol (unedau 001/002) – Meithrin Feydd Derwen (Sampl) Pecyn i Ymgeiswyr

Enw'r ymgeisydd:

Rhif yr ymgeisydd:

Enw'r ganolfan:

Rhif y ganolfan:

Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

Mae gennych **1 awr** i gwblhau'r asesiad hwn.

Mae'r cwestiynau yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar y senario sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw, y byddwch chi wedi ei gael. Mae copi o'r senario yn y pecyn.

- Mae pob cwestiwn yn orfodol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen drwy'r senario a'r cwestiynau yn ofalus cyn i chi ddechrau ateb y cwestiynau.
- Mae'n bosibl na fyddwch chi'n gyfarwydd â rhai o'r senarios, ond wrth ymateb, gallwch ddangos eich bod wedi defnyddio'r egwyddorion cyffredinol rydych chi wedi eu dysgu a dangos bod y senario yn berthnasol i bob lleoliad blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- Rhaid sicrhau mai eich gwaith **chi eich hun yn gyfangwbl** yw'r holl waith rydych chi'n ei gyflwyno. Nid ydych chi'n gallu cael unrhyw help gyda'r ymatebion rydych yn eu hysgrifennu drwy gydol yr asesiad hwn.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich holl waith ar ddiwedd **pob** sesiwn.
- Nid ydych yn cael mynd ag unrhyw ddeunyddiau heblaw am yr astudiaeth achos i ffwrdd gyda chi, ac ni fydd modd i chi weld y deunyddiau hyn rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi **llofnodi'r datganiad** ar ddiwedd pob sesiwn yn gweithio ar yr asesiadau hyn.
- Os byddwch chi'n cwblhau'r cwestiynau ar bapur, ac yn gweld nad oes gennych ddigon o le, defnyddiwch bapur parhad, gan sicrhau eich bod wedi rhifo'r cwestiwn (cwestiynau) yn gywir.

At ddefnydd yr Aseswr yn unig (Enghraifft ar gyfer Set Cwestiynau A)

Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc a Ddyfarnwyd
1.	3	
2.	3	
3.	2	
4.	7	
5.	2	
6.	3	
7.	3	
8.	3	
9.	4	
Cyfanswm	30	

Sylwadau'r Aseswr:

Senario – Meithrinfeydd Derwen

Busnes mawr wedi'i leoli yng Nghymru yw Meithrinfeydd Derwen sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau o ansawdd uchel gan gynnwys gofal plant o enedigaeth i 5 oed.

Mae sylfaenydd Meithrinfeydd Derwen yn credu bod plant yn ffynnu (*thrive*) mewn amgylchedd iach, ac mae'n rhoi pwyslais mawr ar hybu hyn yn ei leoliadau gofal plant i gyd. Mae'n gwneud hyn drwy gynnig dim ond cynnyrch organig amser bwyd. Mae ardaloedd mawr y tu allan ar gyfer chwarae echddygol bras ac ymarfer corff ym mhob lleoliad, ac yn aml byddan nhw'n cymryd rhan mewn cynlluniau bwyta'n iach.

Mae cynllun pob un o amgylcheddau chwarae'r Dderwen yn gwneud y mwyaf o brofiadau dysgu, gan symud yn esmwyth rhwng gweithgareddau a bod allan yn yr awyr agored.

Er mwyn cynllunio ar gyfer gweithgareddau ac amgylcheddau chwarae yn y dyfodol maen nhw'n arsylwi plant i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio dull plant ganolog.

Mae'n 8 o'r gloch ar fore dydd Llun, ac mae'r plant wedi dechrau cyrraedd un o leoliadau Meithrinfeydd Derwen. Pan fydd y plant yn cyrraedd yr ystafell cyn-ysgol (3-4 oed), mae'r staff yn rhoi croeso cynnes i bob un ac yna mae pob plentyn yn gyfrifol am ddod o hyd i'r cerdyn enw sy'n perthyn iddo/iddi ac am roi'r cerdyn ar y gofrestr.

Mae'r staff wedi gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn ysgogol, deniadol ac yn addas i fodloni anghenion, diddordebau a dewisiadau pob plentyn dan eu gofal.

Pan ddaw Tom, 4 oed, i mewn i'r ystafell, mae'n eithaf swil ac nid oes llawer o awydd ganddo i ymuno; mae'n torri ei galon wrth adael ei fam. Dim ond yn ddiweddar mae Tom wedi dod i'r lleoliad. Cafodd ei gyfeirio i gael asesiad clyw, ac roedd popeth yn glir. Mae lleferydd ac iaith Tom yn cael ei asesu ar hyn o bryd y tu allan i'r feithrinfa. Kate yw gweithiwr allweddol Tom ac mae hi'n gwbl ymwybodol o hyn. Mae hi wedi bod mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda mam Tom a phobl broffesiynol eraill i sicrhau bod dull amlasiantaethol yn cael ei ddefnyddio ac yn gweithio ar y cyd.

Mae Tom yn gafael yn llaw Kate ac yn arwain Kate at yr ardal adeiladu. Mae Kate yn eistedd gyda Tom am ychydig, yn rhyngweithio ac yn annog y chwarae drwy godi darnau o offer a dechrau adeiladu. Mae llawer o'r plant eraill yn gweld hyn ac yn mynd at Kate a Tom gan ddechrau creu wal allan o'r blociau. Mae Tom yn dechrau ymlacio ac yn dechrau cydweithio â'r plant eraill. Yna, mae Tom yn dechrau cychwyn chwarae gan symud i'r ardal tywod gan ei fod eisieu gwneud twll i chwilio am y trysor. I helpu gyda hyn, mae Kate yn mynd i nôl gemau a darnau o arian i'w rhoi yn y tywod.

Mae Kate yn cael ei gweld yn treulio llawer o amser un i un gyda Tom yn ystod y dydd, nid yw'n ymddangos bod y plant eraill angen cymaint o gymorth. I gyfathrebu gyda Tom, mae Kate yn ceisio sgwrsio gydag ef a defnyddio arwyddion cadarnhaol fel gwenu a bawd i fyny.

Ar ôl i'r plant i gyd gyrraedd, maen nhw'n cael eu harwain at y mat ar gyfer Amser Cylch. Mae Kate yn gwneud yn siŵr bod Tom yn eistedd yn y tu blaen, gan ei fod yn cael problemau clywed ar adegau. Yna mae arweinydd y tîm, Lucy, yn canu'r gân 'Bore da' bob dydd a bydd y plant i gyd yn dechrau canu gyda hi. Wedyn, mae Lucy yn sôn am y tywydd gan ddweud pethau yn Gymraeg wrth fynd ymlaen ac amlinellu pa weithgareddau fydd ar gael y diwrnod hwnnw. Mae'r plant wedyn yn cael dewis pa un o'r gweithgareddau maen nhw am gymryd rhan ynddo. Mae un o'r gweithgareddau yn cynnwys bwyta'n iach. Yn ystod y gweithgaredd bydd y plant yn paratoi byrbryd drwy olchi, pilio a thorri ffrwythau. Mae'r plant sy'n dewis y gweithgaredd bwyta'n iach yn mynd i olchi eu dwylo yn barod i baratoi'r byrbryd.

Yn ystod y gweithgaredd, mae'r plant yn gwneud penderfyniadau am ba ffrwythau maen nhw eisiau eu paratoi ac maen nhw hefyd yn sgwrsio am eu hoff ffrwythau. Mae'r plant yn cael cyfarwyddiadau clir ar sut i baratoi'r byrbryd sy'n briodol ar gyfer eu hoedran. Mae arweinydd y gweithgaredd yn gweithio gyda nifer bach o blant ar y tro ac mae hefyd yn defnyddio cliwiau lluniau ochr yn ochr â'r cyfarwyddiadau llafar. Mae Kate yn rhoi cymorth un-i-un i Tom o hyd yn ystod y gweithgaredd hwn. Mae'n ailadrodd y cyfarwyddiadau yn uniongyrchol wrth Tom.

Mae Ayisha, 3 oed, yn penderfynu mynd at yr ardal chwarae rôl ac yn dechrau gosod y bwrdd. Mae'n paru'r holl ddysglau lliw ac yn gofyn i Steve, un o'r nyrsys meithrin, i eistedd gyda hi. Wedyn, mae'n gofyn i Steve beth hoffai ef ei gael i'w fwyta ac mae'n ysgrifennu ei archeb bwyd ar ei phad. Mae plant eraill yn dechrau ymuno yn y gweithgaredd ac mae Ayisha yn dechrau cymryd eu harchebion. Mae Steve yn sylwi bod Ayisha yn gallu ysgrifennu ei henw ar ei phen ei hun wedi'i ddilyn gan y rhifau 1 i 5. Mae Steve yn nodi hyn ar daflen arsylwi.

Pan ddaw'r sesiwn i ben, mae'r plant yn tacluso eu cyfarpar ac yn cyfarfod nôl ar y mat er mwyn trafod gweithgareddau'r dydd. Mae Lucy yn rhoi cyfle i bob plentyn ddweud beth y gwnaeth fwynhau ei wneud y diwrnod hwnnw. Mae ffotograffau ar gael hefyd i gynrychioli'r gweithgareddau er mwyn helpu'r plant.

Ar ôl i'r plant adael, mae gofyn i'r staff werthuso'r amgylchedd chwarae maen nhw wedi bod yn gweithio ynddo yn ystod y dydd, ac yn seiliedig ar sylwadau Steve am Ayisha, mae'r staff yn penderfynu newid yr ardal chwarae rôl i gaffi.

Meithrinfeydd Derwen

Cwestiynau Asesu: Set A

1. Mae lleoliadau Meithrinfa Derwen yn falch o'r ffaith eu bod yn rhoi pwyslais mawr ar ddull plant ganolog.
 - (a) Amlinellwch pam mae dull plant ganolog yn bwysig mewn lleoliad fel Meithrinfa Derwen. [1]
.....
.....
 - (b) Disgrifiwch **ddwy** ffordd mae Meithrinfa Derwen yn cefnogi dull plant ganolog. [2]
 - (i)
.....
 - (ii)
.....

2. Esboniwch **dair** strategaeth mae'r lleoliad yn eu defnyddio er mwyn helpu'r plant i feithrin yr hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau pan fyddan nhw'n cyrraedd am y tro cyntaf. [3]
 - (i)
.....
 - (ii)
.....
 - (iii)
.....

3. Disgrifiwch **ddwy** egwyddor cynhwysiant mae Kate wedi'u defnyddio gyda Tom. [2]
 - (i)
.....
 - (ii)
.....

4. (a) Mae'n ymddangos bod Tom wedi meithrin ymlyniad â'i weithiwr allweddol, Kate.
Disgrifiwch pam mae hyn yn bwysig o ran datblygiad Tom. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

- (b) Mae asesiadau diweddar wedi cadarnhau anghenion lleferydd ac iaith Tom.
Esboniwch effaith bosibl anghenion lleferydd ac iaith Tom ar ei iechyd, ei lesiant a'i ddatblygiad cyfannol (*holistic development*). [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

5. Nodwch **ddwy** ffordd mae Kate yn cefnogi datblygiad lleferydd ac iaith Tom. [2]

(i)

.....

(ii)

.....

6. Disgrifiwch sut mae Meithrinfa Derwen yn defnyddio cyfleoedd chwarae a gweithgareddau i gefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

7. Disgrifiwch fanteision bod yn ddwyieithog ac yn amlieithog mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

8. Wrth weithio mewn meithrinfa, yn aml mae gofyn i'r gweithwyr gyfrannu at y broses gynllunio, fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Cyfrannwch at y cynllun gweithgareddau drwy gwblhau adran (a) a (b) yn y siart isod.

Enw'r gweithgaredd a disgrifiad:

Gweithgaredd adeiladu

Y plant yn adeiladu strwythurau ac adeiladau

Adnoddau:

Blociau Pren

Blociau Plastig

Duplo

Morthwyl, pegiau a byrddau

- (a) Crynowch y cyfleoedd dysgu cyfannol i'r plant wrth chwarae yn yr ardal adeiladu. [2]

- (b) Nodwch pam ei bod yn bwysig cydbwysu unrhyw risgiau sy'n cael eu cymryd wrth chwarae â manteision gweithgareddau o'r fath. [1]

9. Esboniwch bwysigrwydd chwarae ar gyfer dysgu a datblygiad plant. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Cynllun Marcio – Cwestiynau Asesu Meithrinfeydd Derwen: Set A		
	Uned 1: Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed); ac Uned 2: Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad	Papur Cwestiynau 1
Cwestiwn (cyf y fanyleb)	Senario 1	Cyfanswm
1.(a) (uned 1, 4.2)	<p>Dyfarnwch 1 marc am ateb cywir.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n annog y plant i gymryd yr awenau o ran eu dysgu • mae'n annog y plant i gymryd cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau am yr hyn byddan nhw yn ei ddysgu ac yn ei archwilio • mae'n annog y plant i arwain eu dysgu eu hunain. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	1
1.(b) (uned 1, 4.8)	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ateb cywir hyd at uchafswm o 2 farc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae arsylwadau o blant yn cael eu defnyddio er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau ac amgylcheddau chwarae ar gyfer y dyfodol • mae'r staff yn barod i ganiatáu i'r plant arwain e.e. mae Tom yn gafael yn llaw Kate ac yn arwain Kate at yr ardal adeiladu • mae'r staff yn sicrhau eu bod yn hwyluso anghenion y plant e.e. pan fydd Tom yn dechrau chwarae drwy symud i'r ardal tywod gan ei fod am balu am drysor; er mwyn galluogi hyn, mae Kate yn mynd i nôl gemau a darnau o arian i'w rhoi yn y tywod • mae'r plant yn gallu dewis pa weithgaredd hofffen nhw gymryd rhan ynddo • mae'r gweithgareddau yn cael eu newid yn rheolaidd i fodloni anghenion y plant e.e. yn seiliedig ar sylwadau Steve am Ayisha, mae'r staff yn penderfynu newid yr ardal chwarae rôl i gaffi. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	2
2. (uned 1, 11.3)	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ateb cywir hyd at uchafswm o 3 marc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r plant yn cael croeso cynnes gan y staff • mae'r staff wedi gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn ysgogol, yn ddeniadol ac yn addas i fodloni anghenion pob plentyn dan eu gofal ac i ymateb i'w diddordebau a bodloni eu dymuniadau • mae pob gweithiwr allweddol yn gwbl ymwybodol o anghenion unigol y plant • mae rhai o'r staff, lle bo'n briodol, yn mynychu cyfarfodydd gyda'r rhieni (mam Tom) a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn sicrhau dull gweithredu amlasiantaeth a threfniadau cydgynhyrchu • mae'r staff yn annog y plant i'w tywys tuag at yr ardaloedd lle maen nhw eisiau chwarae • mae'r staff yn sicrhau amser un-i-un lle bo'n briodol e.e. mae Kate yn cael ei gweld yn treulio llawer o amser un-i-un gyda Tom drwy gydol y dydd. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	3

<p>3. (uned 2, 5.5)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ateb cywir, hyd at uchafswm o 2 .</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Kate yn gwneud yn siŵr bod Tom yn eistedd yn y tu blaen, gan ei fod yn aml yn ei chael hi'n anodd clywed popeth • Mae Kate wedi bod yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda mam Tom a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau dull gweithredu amlasiantaeth a threfniadau cydgynhyrchu • Mae Kate yn eistedd gydag ef am ychydig, yn ei annog i chwarae drwy godi darnau o offer a dechrau adeiladu strwythur • Mae Kate yn sicrhau bod gan Tom bopeth sydd ei angen arno e.e. drwy fynd i nôl gemau a darnau o arian i'w rhoi yn y tywod. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
<p>4.(a) (uned 2, 1.4)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth i ddweud pam mae ymlyniad yn bwysig.</p> <p>Dyfarnwch 2 marc am ddisgrifiad da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i ddweud pam mae ymlyniad yn bwysig.</p> <p>Dyfarnwch 3 marc am ddisgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i ddweud pam mae ymlyniad yn bwysig.</p> <p>Gallai atebion gynnwys: Mae'n bwysig i ddatblygiad Tom am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel gan roi ymdeimlad o sicrwydd iddo • mae'n cefnogi ei ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol • mae'n cefnogi'r broses o ddatblygu annibyniaeth, hunan-barch a llesiant • bydd plant yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel ac yn gallu ymddiried yn eu perthynas ag oedolion, gan ddysgu, yn deillio o hynny, i ymddiried yn eu penderfyniadau eu hunain • Mae'n rhoi sicrwydd a hyder iddo feithrin perthnasoedd newydd ag oedolion a phlant eraill yn yr amgylchedd (damcaniaeth Bowlby). <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>3</p>
<p>4.(b) (uned 2, 1.2)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am effaith bosibl anghenion lleferydd ac iaith Tom ar ei iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol.</p> <p>Dyfarnwch 2 marc am esboniad sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o effaith bosibl anghenion lleferydd ac iaith Tom ar ei iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol.</p> <p>Dyfarnwch 3 marc am esboniad da â gwybodaeth a dealltwriaeth am effaith bosibl anghenion lleferydd ac iaith Tom ar eich iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol.</p> <p>Dyfarnwch 4 marc am esboniad rhagorol â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am effaith bosibl anghenion lleferydd ac iaith Tom ar ei iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gallai sgiliau cyfathrebu gwael achosi iddo fod yn swil ac yn dawedog (er nad yw hynny'n ymddangos yn wir) 	<p>4</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • gallai deimlo'n rhwystredig gan nad yw'r unigolion eraill yn y lleoliad yn ei ddeall • gallai fod ganddo hunan-barch isel • gallai unrhyw rwystredigaeth arwain at ymddygiad gwael • gallai gymryd amser i setlo a byddai hynny'n gallu amharu ar allu'r plant eraill i setlo • gallai effeithio ar ei ddatblygiad cymdeithasol os nad yw'n hyderus wrth gyfathrebu • efallai na fydd yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel canu a chwarae rôl, a byddai hynny'n gallu effeithio ar ei ddatblygiad cyfannol. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	
5. (uned 2, 4.5)	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ateb cywir hyd at uchafswm o 2 farc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae gweithiwr allweddol Tom, Kate, yn gwbl ymwybodol o hyn ac wedi bod yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda mam Tom a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau dull gweithredu amlasiantaeth a threfniadau cydgynhyrchu • mae Kate yn cael ei gweld yn treulio llawer o amser un-i-un gyda Tom drwy gydol y dydd • mae Kate yn gwneud yn siŵr bod Tom yn eistedd yn y tu blaen, gan ei fod yn aml yn ei chael hi'n anodd clywed popeth. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	2
6. (uned 2, 4.6)	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae Meithrinfa Derwen yn defnyddio chwarae a gweithgareddau i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.</p> <p>Dyfarnwch 2 farc am ddisgrifiad da â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae Meithrinfa Derwen yn defnyddio chwarae a gweithgareddau i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.</p> <p>Dyfarnwch 3 marc am ddisgrifiad da iawn â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sut mae Meithrinfa Derwen yn defnyddio chwarae a gweithgareddau i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.</p> <p>Gallai'r atebion gyfeirio at unrhyw rai o'r gweithgareddau ymgysylltu gweithredol sy'n hybu lleferydd, iaith a chyfathrebu, y mae sôn amdany'n nhw yn yr astudiaeth achos neu enghreifftiau eraill sydd i'w gweld mewn lleoliadau.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ystod Amser Cylch, mae arweinydd y tîm yn canu'r gân 'Bore Da' bob dydd ac mae'r plant i gyd yn ymuno yn y canu • mae Lucy yn rhoi cyfle i bob plentyn ddweud beth mae ef/hi wedi mwynhau ei wneud y diwrnod hwnnw • mae un o'r plant yn gofyn i Steve beth mae ef eisiau ei gael i'w fwyta ac yn ysgrifennu ei archeb ar ei phad, mae plant eraill yn dechrau ymuno ac mae Ayisha yn dechrau cymryd eu harchebion • mae llawer o gyfleoedd i drafod yn cael eu rhoi • mae hwiangerddi yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn ystod Amser Cylch yn ogystal â gweithgareddau canu • mae plant yn cael eu hannog i sgwrsio yn ystod gweithgareddau chwarae rôl. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	3

<p>7. (uned 1, 9.2)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ateb cywir.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n effeithio ar ddatblygiad gwybyddol • deall cysyniadau mathemategol a datrys problemau geiriau • meithrin sgiliau meddwl cryf • defnyddio rhesymeg • canolbwyntio, cofio a gwneud penderfyniadau • meddwl am iaith • dysgu ieithoedd eraill • mae bod yn ddwyieithog yn helpu'r plant i gynnal cysylltiadau cryf â'u teulu, eu diwylliant a'u cymuned • mae'n rhan allweddol o hunaniaeth ddatblygol plentyn • mae'n arwain at ddulliau hyblyg o feddwl wrth ystyried problemau • mae'n hybu lefelau meddwl haniaethol uwch, sy'n bwysig wrth ddysgu • mae'n cefnogi arfer plant ganolog • cyflogadwyedd – mae'n ehangu cyfleoedd yn y dyfodol. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>3</p>
<p>8.(a) (uned 2, 3.12)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau. Dyfarnwch 1 marc am grynodedd sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am y cyfleoedd dysgu cyfannol ar gyfer plant wrth chwarae yn yr ardal adeiladu Dyfarnwch 2 marc am grynodedd da â gwybodaeth a dealltwriaeth glir am y cyfleoedd dysgu cyfannol ar gyfer plant wrth chwarae yn yr ardal adeiladu</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sgiliau cyfathrebu drwy ryngweithio • sgiliau datrys problemau drwy adeiladu strwythurau • sgiliau dysgu creadigol • sgiliau echddygol bras • sgiliau echddygol manwl <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
<p>8.(b) (uned 2, 3.12)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am ateb cywir.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oherwydd bod angen i'r plant ddysgu sut i gymryd risgiau yn ystod gweithgareddau a gallai hynny fod wedi'i gyfyngu pe na byddai unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r gweithgaredd • ar yr amod bod y manteision yn bwysicach na'r risgiau a bod asesiad risg wedi'i gynnal, mae'r gweithgaredd yn werth ei gynnal. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>1</p>

<p>9. (uned 2, 3.2)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd chwarae i ddysgu a datblygiad plant.</p> <p>Dyfarnwch 2 marc am esboniad sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd chwarae i ddysgu a datblygiad plant.</p> <p>Dyfarnwch 3 marc am esboniad da â gwybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd chwarae i ddysgu a datblygiad plant.</p> <p>Dyfarnwch 4 marc am esboniad rhagorol â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am bwysigrwydd chwarae i ddysgu a datblygiad plant.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae chwarae yn caniatáu i'r plant ddefnyddio eu creadigrwydd, gan ddatblygu eu dychymyg, eu dehurwydd, eu cryfder corfforol, gwybyddol ac emosiynol ar yr un pryd • drwy chwarae, mae'r plant yn meithrin gwydnwch a hyblygrwydd, sy'n cyfrannu at lesiant corfforol ac emosiynol • mae cyfleoedd chwarae wedi'u cynllunio'n dda yn helpu'r plant i feddwl a gwneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch • mae'n meithrin ac yn ehangu eu sgiliau ieithyddol a'u sgiliau cyfathrebu • mae'n eu galluogi i fod yn greadigol • mae'n eu galluogi i ymchwilio i wahanol ddeunyddiau a'u harchwilio • mae'n cynnig cyfleoedd iddynt arbrofi a rhagfynegi canlyniadau • cyfleoedd i'r plant ddilyn eu diddordebau a'u syniadau personol drwy chwarae rhydd • sut mae chwarae yn helpu'r plant i feithrin eu hunan-werth a'u hunaniaeth bersonol • pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw: <ul style="list-style-type: none"> • cymell • ysgogi • cefnogi • meithrin sgiliau • datblygu cysyniadau • meithrin sgiliau iaith/cyfathrebu a'r gallu i ganolbwyntio • meithrin agweddau cadarnhaol • dangos ymwybyddiaeth/defnydd o'r hyn a ddysgwyd yn ddiweddar a sgiliau • atgyfnerthu'r dysgu • meithrin hunan-barch a hunan-werth. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>4</p>
	<p>Cyfanswm Uned 1: 9 marc, Uned 2: 21 marc</p>	<p>30 marc</p>



Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Pecyn i Aseswyr Asesiad Mewnol (001/003) – Dechrau'n Deg

Mae'r pecyn hwn i aseswyr yn cynnwys y canlynol:

- cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r aseswr
- copi o'r Pecyn i Ymgeiswyr
- y cynllun marcio.

Cyfarwyddiadau

Asesiad crynodol yw'r asesiad hwn er mwyn asesu unedau 001 a 003. Dim ond ar ôl cwblhau'r holl waith dysgu ar gyfer yr unedau hyn y dylai ymgeiswyr roi cynnig ar yr asesiad hwn.

Canlyniad yr asesiad yw **llwyddo/methu**. Mae cyfanswm o 30 o farciau ar gael. **Y marc llwyddo ar gyfer yr asesiad hwn yw 22.**

Mae'r asesiad yn cynnwys y canlynol:

- senario i'w ryddhau ymlaen llaw y mae'n rhaid ei roi i'r ymgeiswyr bythefnos cyn yr asesiad
- set o gwestiynau/tasgau i'r ymgeisydd eu sefyll. Mae 60 munud gan yr ymgeisydd i gwblhau'r cwestiynau/tasgau.

Rhaid i'r asesiad:

- gael ei farcio'n fewnol, gan staff â'r cymwysterau priodol, gan ddefnyddio'r cynlluniau marcio sydd wedi'u darparu. Gweler y fanyleb am fanylion o ran gofynion staff
- bod yn destun trefniadau sicrhau ansawdd mewnol, gan staff â'r cymwysterau priodol
- bod yn destun trefniadau sicrhau ansawdd/dilysu allanol gan CBAC
- cydymffurfio â'r **Amodau Asesu** isod.

Noder: lle cafodd ymatebion dilys ychwanegol eu derbyn gan y marciwr ar gyfer unrhyw gwestiwn; dylid eu cofnodi a'u cadw i'w rhannu â'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd allanol. Gwneir hyn er mwyn ategu trefniadau safoni ar draws canolfannau a bydd yn golygu ei bod yn bosibl ychwanegu ymatebion dilys ychwanegol at y cynlluniau marcio yn ddiweddarach.

Amodau asesu

Rhaid cwblhau'r asesiad hwn o dan yr amodau canlynol:

- Rhaid i'r amgylchedd lle mae'r asesiadau'n cael eu cwblhau fod yn amgylchedd sydd wedi'i reoli. Ni ddylid torri ar draws yr ymgeiswyr a/neu ddylanwadu arnyn nhw mewn unrhyw ffordd wrth iddyn nhw weithio ar y tasgau. Fodd bynnag, er nad yw'n ofynnol sicrhau goruchwyliaeth lawn neu barhaus; rhaid i'r ganolfan allu cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith.
- Gall ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau cyffredin a fyddai'n gallu bod ar gael mewn sefyllfaoedd 'bywyd go iawn', er enghraifft, cyfrifiaduron personol/gliniaduron, tabledi, geiriaduron, cyfrifianellau. Ni chaniateir ffonau symudol na dyfeisiau trosglwyddo/derbyn eraill ac nid yw ymgeiswyr yn cael defnyddio'r rhyngwyd yn ystod yr asesiad.
- Gall ymgeiswyr ddod â'r nodiadau maen nhw wedi'u gwneud ar y senario a ryddhawyd ymlaen llaw i'r asesiad. Dim ond dwy ochr A4 o nodiadau sy'n cael ei ganiatáu, a rhaid rhoi gwybod hyn i'r ymgeiswyr.
- Gall dysgwyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn terfynau amser yr asesiad. Ni ddylai aseswyr roi mewnbwn nac arweiniad i ddysgwyr yn ystod amser yr asesiad. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno.

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Asesiad Mewnol (001/003) – Dechrau'n Deg (Sampl) Pecyn i ymgeiswyr

Enw'r ymgeisydd:

Rhif yr ymgeisydd:

Enw'r ganolfan:

Rhif y ganolfan:

Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

Mae gennych **1 awr** i gwblhau'r asesiad hwn.

Mae'r cwestiynau yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar y senario sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw, y byddwch chi wedi ei gael. Mae copi o'r senario yn y pecyn.

- Mae pob cwestiwn yn orfodol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen drwy'r senario a'r cwestiynau yn ofalus cyn i chi ddechrau ateb y cwestiynau.
- Mae'n bosibl na fyddwch chi'n gyfarwydd â rhai o'r senarios, ond wrth ymateb, gallwch ddangos eich bod wedi defnyddio'r egwyddorion cyffredinol rydych chi wedi eu dysgu a dangos bod y senario yn berthnasol i bob lleoliad blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- Rhaid sicrhau mai eich gwaith **chi eich hun yn gyfangwbl** yw'r holl waith rydych chi'n ei gyflwyno. Nid ydych chi'n gallu cael unrhyw help gyda'r ymatebion rydych yn eu hysgrifennu drwy gydol yr asesiad hwn.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich holl waith ar ddiwedd **pob** sesiwn.
- Nid ydych yn cael mynd ag unrhyw ddeunyddiau heblaw am yr astudiaeth achos i ffwrdd gyda chi, ac ni fydd modd i chi weld y deunyddiau hyn rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi **llofnodi'r datganiad** ar ddiwedd pob sesiwn yn gweithio ar yr asesiad hwn
- Os byddwch chi'n cwblhau'r cwestiynau ar bapur, ac yn gweld nad oes gennych ddigon o le, defnyddiwch bapur parhad, gan sicrhau eich bod wedi rhifo'r cwestiwn (cwestiynau) yn gywir.

At ddefnydd yr Aseswr yn unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc a Ddyfarnwyd
1.	2	
2.	6	
3.	2	
4.	2	
5.	2	
6.	5	
7.	4	
8.	2	
9.	5	
Cyfanswm	30	

Sylwadau'r Aseswr:

Senario – Dechrau'n Deg

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i thargedu ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw Dechrau'n Deg, ac mae ar gael i deuluoedd cymwys â phlant o dan 4 oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (*most disadvantaged areas*) yng Nghymru.

O ganlyniad i benderfyniad i ehangu'r rhaglen i'r ardaloedd lle mae Dechrau'n Deg yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, trefnwyd contractau gyda nifer o ddarparwyr gofal plant newydd, gan gynnwys 'Little Gems' sydd wedi'i leoli yn un o Gyfoedd De Cymru.

Mae elfennau craidd rhaglen Dechrau'n Deg yn dod o amrywiaeth o wasanaethau y profwyd eu bod yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r teuluoedd sy'n mynychu'r lleoliadau.

Mae'r elfennau craidd hyn yn cynnwys y canlynol:

- gofal plant rhan amser o ansawdd sydd am ddim i blant 2-3 oed
- mynediad i wasanaeth Ymwelwyr Iechyd gwell
- mynediad i Raglenni Rhianta
- cyfleoedd i gefnogi Datblygiad Iaith Cynnar.

Nifer o dimau sy'n cyflwyno'r elfennau craidd hyn ac mae ganddyn nhw strwythurau a phwrpasau gwahanol, ond mae'r timau hyn i gyd yn cydweithio er mwyn sicrhau'r un canlyniadau cadarnhaol.

Mae tîm rheoli Little Gems wedi treulio'r 20 wythnos diwethaf yn cofrestru ei ddarpariaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Fel rhan o'r broses, lluniwyd polisiau cadarn ac ymarferol ar gyfer y cwmni yn seiliedig ar ddeddfwriaeth bresennol er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol, ond gan barchu hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ar yr un pryd.

Penodwyd y rheolwr newydd a gofynnwyd iddo ddatblygu rolau swydd priodol, llunio manylbau swydd newydd, hysbysebu pedair swydd newydd, cynnal cyfweiliadau a phenodi unigolion addas. Gofynnwyd iddo hefyd baratoi'r amgylchedd er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y plant y mae disgwyl iddyn nhw ddechrau yn y lleoliad pan fydd yn agor ac yn lansio'r rhaglen.

Er mwyn llenwi'r pedair swydd newydd, cynhaliodd y rheolwr gyfweiliadau ffurfiol yn ogystal â chyfweiliadau ymarferol, a digwyddodd y cyfweiliadau hyn yn un o leoliadau sefydledig (*well-established*) presennol Dechrau'n Deg.

Yn ystod y cyfweiliadau ffurfiol, roedd angen i'r rheolwr gael gwybod am brofiad yr unigolion ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn ogystal â chael syniad o'u gwerthoedd a'u credoau a sut bydden nhw yn defnyddio'r gwerthoedd a'r credoau hynny i gefnogi llesiant y plant. Yn ystod y cyfweiliad ymarferol, roedd yn bwysig i'r rheolwr allu gweld yr unigolion yn ymgysylltu â'r plant a'r staff, gan ddangos ffyrdd o weithio sy'n cefnogi dull plant ganolog. Yn dilyn y cyfweiliadau, llwyddodd y rheolwr i benodi arweinydd llawr a thri o nyrsys meithrin.

Erbyn hyn, mae Little Gems wedi bod ar agor ers pythefnos; yn ystod y cyfnod hwn, mae'r pedwar aelod newydd o staff wedi cwblhau cyfnod sefydlu wythnos o hyd a oedd yn ymdrin â'r canlynol:

- nodau rhaglen Dechrau'n Deg
- eu rolau swydd
- polisiau a gweithdrefnau'r cwmni
- pwysigrwydd cyfrinachedd
- cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- polisiau a gweithdrefnau dyletswydd gofal.

Cafodd y staff eu cyflwyno i'r trefniadau ar gyfer gweithio gydag Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r tîm cynhwysiant, ac maen nhw bellach yn gwbl ymwybodol o rôl trefniadau gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â'r pwyslais cryf mae pob lleoliad yn ei roi ar ddull plant ganolog.

Ariannwyd 16 o leoddd ac mae'r plant yn cael eu hintegreiddio i'r lleoliad, gan roi digon o amser iddyn nhw setlo.

Mae'r rheolwyr wedi gofyn i Rosie, arweinydd y llawr, lunio cynllun ar gyfer yr amgylchedd. Mae Rosie yn trefnu cyfarfod tîm er mwyn i'r staff gyfrannu; gofynnir i bob aelod o'r staff ddod ag unrhyw sylwadau ar y plant gyda nhw i'r cyfarfod, yn ogystal ag unrhyw werthusiadau ar weithgareddau a gynhaliwyd eisoes. Maen nhw yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau eu bod yn defnyddio dull wedi'i arwain gan y plant mewn perthynas â chynllunio ac ymarfer myfyriol.

Mae aelod arall o'r staff, Ben, wedi derbyn rôl swyddog y Gymraeg, ac mae'n awgrymu eu bod yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn fwy rheolaidd ym mhob rhan o'r amgylchedd. Mae Rosie yn gofyn i Ben gynllunio dulliau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y staff er mwyn rhoi hyn ar waith, gan gefnogi dewis iaith y plant yn Little Gems ar yr un pryd.

Ar ddiwedd y cyfarfod staff, mae Rosie yn esbonio pwysigrwydd sesiynau goruchwylio ac yn nodi byddan nhw'n cael eu cynnal ar ddiwedd y mis.

Mae'n rhoi ffurflen i bob aelod o'r staff ei llenwi cyn eu sesiwn goruchwylio. Mae'r ffurflen hon yn gofyn iddyn nhw ystyried a chofnodi gwybodaeth am eu hymarfer ac i ystyried eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Gan fod rhywfaint o sylw wedi bod yn y wasg yn ddiweddar am ddefnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol e.e. "Am wythnos hir yn y gwaith, methu ag aros iddi ddod i ben #plant #straen", mae Rosie yn penderfynu cyflwyno'r polisi cyfryngau cymdeithasol newydd i bob aelod o'r staff yn ystod eu sesiwn goruchwylio. Mae'r polisi yn nodi bod angen i staff ymddwyn yn broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff lofnodi a dyddio'r polisi.

Dechrau'n Deg

Cwestiynau Asesu Set A

1. Mae polisiau a gweithdrefnau yn chwarae rhan hanfodol fel sail i ymarfer (*underpins practice*).
Cwblhewch y siart isod.

- (a) Nodwch **un** polisi allweddol mae'n rhaid i 'Little Gems' ei ddilyn.
- (b) Disgrifiwch sut mae'r ddeddf a nodwyd gennych yn sail i ymarfer. [2]

Polisi	Disgrifiad
(a)	(b)

2. Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod yn ystod ei gyfnod sefydlu bod ymdrin â gwybodaeth yn y ffordd briodol yn flaenoriaeth uchel i'r lleoliad.

- (a) Nodwch pam ei bod yn bwysig gwybod pryd mae'n briodol rhannu gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi gydag unigolion. [1]

.....

.....

- (b) Enwch **dair** eitem o wybodaeth mae angen eu cofnodi, rhoi gwybod amdany'n nhw a'u storio ym meithrinfa Little Gems. [3]

(i)

.....

(ii)

.....

(iii)

.....

(c) Disgrifiwch **ddwy** ffordd byddai gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gallu sicrhau cyfrinachedd. [2]

(i)

.....

(ii)

.....

3. Yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl agor, aeth rheolwr Little Gems ati'n rheolaidd i sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau uniongyrchol gan bwysleisio nad methiant oedd gofyn am gefnogaeth.

Esboniwch pam ei bod yn bwysig bod y staff yn Little Gems yn gwybod sut a phryd i ofyn am gefnogaeth ychwanegol. [2]

.....

.....

.....

.....

4. Mae llawer o leoliadau gofal plant yn falch iawn o'r ffaith eu bod yn rhoi pwyslais mawr ar waith perthynas-ganolog.

Amlinellwch **ddwy** ffordd mae Little Gems yn gweithredu gwaith perthynas-ganolog. [2]

.....

.....

.....

.....

5. Disgrifiwch yr effaith byddai agweddau ac ymddygiad y gweithwyr gofal plant yn gallu ei chael ar y plant sy'n mynychu'r lleoliad a'u teuluoedd. [2]

.....

.....

.....

.....

6. Pan fydd Little Gems yn cynllunio ar gyfer yr amgylchedd mae Rosie yn gofyn i'r staff ddod ag arsylwadau a gwerthusiadau plant gyda nhw.

(a) Disgrifiwch sut bydd staff meithrinfa Little Gems yn gallu defnyddio myfyrio (*reflection*) i wella ymarfer. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Nodwch **ddwy** ffordd mae Rosie yn defnyddio ymarfer myfyriol yn ystod sesiynau goruchwyllo. [2]

(i)

.....

(ii)

.....

7. (a) Cwblhewch y siart isod i ddisgrifio rôl a chyfrifoldebau Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg. [2]

Gweithiwr Proffesiynol	Rôl/Cyfrifoldebau
Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg	

(b) Er mwyn sicrhau bod rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei chyflwyno'n effeithiol, mae angen i nifer o wahanol dimau gydweithio. Nodwch sut mae hyn yn cyfrannu at lesiant y plant a'u teuluoedd. [2]

.....

.....

.....

.....

8. Mae Rosie yn ymwybodol bod rhai o'r staff, yn ôl pob tebyg, yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod eu cyfnodau egwyl. Disgrifiwch **ddau** reswm pam mae'r neges a welwyd ar y cyfryngau cymdeithasol yn amhriodol. [2]

.....

.....

.....

.....

9. Gofynnwyd i Ben gynllunio dulliau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y staff er mwyn cefnogi dewis iaith y plant yn Little Gems. Mae wedi gofyn i un o'i gydweithwyr am gyngor yn seiliedig ar brofiadau blaenorol.

- (a) Cwblhewch y siart isod i esbonio sut byddai un dull mae'n ei awgrymu yn gweithio. [2]

Dull
Amser stori a rhigwm (<i>rhyme</i>) yn Gymraeg
Sut bydd hyn yn helpu'r staff a'r plant?

- (b) Mae Ben hefyd wedi sylwi bod gan Carwyn, sef plentyn sydd wedi dechrau yn y feithrinfa, sgiliau cyfathrebu llai datblygedig na llawer o'r plant eraill.

Esboniwch **dri** rhwystr i gyfathrebu effeithiol mae'n bosibl i blant eu profi cyn dechrau mewn lleoliad gofal plant. [3]

(i)

.....

(ii)

.....

(iii)

.....

Cynllun Marcio – Cwestiynau Asesu Dechrau'n Deg: Set A		
	<p>Uned 1: Egwyddorion a gwerthoedd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant (0-19 oed)</p> <p>Uned 3: Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant</p>	<p>Papur Cwestiynau 1</p>
<p>Cwestiwn (cyf y fanyleb)</p>	<p>Astudiaeth Achos 2</p>	<p>Cyfanswm</p>
<p>1.(a) a (b) (uned 1 1.2)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am (a) enwi polisi ac 1 marc am (b) y disgrifiad o sut mae'r polisi yn sail i ymarfer:</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amddiffyn plant: Amddiffyn y plentyn rhag niwed neu gamdriniaeth Y Ddeddf Plant, CCUHP, Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB) a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. • Rheoli ymddygiad: Helpu ein plant i ddatblygu fel unigolion gofalgar ac ystyriol sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi teimladau, safbwyntiau, credoau, eiddo a gwahaniaethau pobl eraill. Annog annibyniaeth a hunanddisgyblaeth gynyddol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn dysgu derbyn cyfrifoldeb am ei ymddygiad ei hun. • Anghenion arbennig: Sicrhau bod pob rhanddeiliad, gan gynnwys rhieni a staff, yn deall ac yn defnyddio dull gweithredu cyson wrth weithredu cymorth i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Y Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol). • Cynhwysiant/Anghenion Ychwanegol: yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael eu hymgorffori yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle cyfartal i gyflawni hyd eithaf ei botensial. Cod Ymarfer AAA. • Cwynion: dull systematig sy'n cael ei ddefnyddio gan sefydliadau i dderbyn, cofnodi ac ymateb i gwynion gan gan eu cwsmeriaid er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn dysgu ohonyn nhw. • Cyfleoedd cyfartal: Yn sicrhau arfer sydd ddim yn gwahaniaethu. Deddf Cydraddoldebau 2010. • Iechyd a Diogelwch: Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu rhag niwed neu anaf, gofynion hylendid, yn lleihau'r risgiau y bydd plentyn yn cael damwain/digwyddiad Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. 	<p>2</p>

<p>2(a) (uned 3, 4.10)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am unrhyw un ymateb cywir.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • er mwyn cynnal hawliau'r plant/unigolion • er mwyn diogelu plant yn y lleoliad • er mwyn diogelu staff yn y lleoliad • er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio'n briodol • er mwyn sicrhau cyfrinachedd fel y bo'n briodol. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>1</p>
<p>2.(b) (uned 3.4.7)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob eitem o wybodaeth y byddai angen ei chofnodi, rhoi gwybod amdani a'i storio, hyd at uchafswm o 3 marc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • damweiniau a digwyddiadau • salwch • pryderon • cwynion • meddyginiaeth • presenoldeb • hanes meddygol • alergeddau. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>3</p>
<p>2.(c) (uned 3,1.14)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am unrhyw ddisgrifiad o sut byddai gweithwyr gofal plant yn gallu sicrhau cyfrinachedd, hyd at uchafswm o 2 marc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae polisiâu a gweithdrefnau cyfrinachedd sydd ar waith yn cael eu dilyn • mae'r holl wybodaeth a gofnodir yn cael ei chadw dan glo • defnyddio cyfrineiriau i ddiogelu pob dyfais electronig • gofynnir i'r staff beidio â thrafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol y tu allan i'r lleoliad • dim ond â rhieni/gofalwr y plentyn mae gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu oni fyddai gwneud hynny yn golygu niwed posibl i'r plentyn • cael gwared ar unrhyw wybodaeth bersonol mewn modd cyfrifol. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
<p>3. (uned 3.1.5)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth pam mae'n bwysig bod staff yn Little Gems yn gwybod sut a pha bryd i ofyn am gefnogaeth ychwanegol.</p> <p>Dyfarnwch 2 marc am esboniad da â gwybodaeth a dealltwriaeth glir pam mae'n bwysig dangos bod staff yn Little Gems yn gwybod sut a pha bryd i ofyn am gefnogaeth ychwanegol.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • er mwyn osgoi camgymeriadau 	<p>2</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • amddiffyniad a llesiant y plant • er mwyn sicrhau bod y staff yn hapus yn eu rôl • er mwyn cefnogi'r staff • sicrhau llesiant y staff. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	
4. (uned 1,7.1)	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ymateb cywir, hyd at uchafswm o 2 farc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfarfodydd tîm • gweithio mewn partneriaeth ag Ymwelwyr Iechyd, y tîm rhyanta, y tîm cynhwysiant • cynllunio fel tîm • gwerthuso fel tîm • cyfnod sefydlu • sesiynau goruchwyllo. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	2
5. (uned 1,12.1)	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ymateb sy'n ymwneud ag un agwedd gadarnhaol neu un agwedd negyddol.</p> <p>Dyfarnwch 2 farc am ddau bwynt, naill ai bwyntiau cadarnhaol neu negyddol neu un o bob un</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bydd agweddau ac ymddygiad cadarnhaol yn cael effaith gadarnhaol ar blant a theuluoedd • bydd agweddau ac ymddygiad cadarnhaol yn helpu i sicrhau bod y plentyn yn awyddus i fynychu'r lleoliad • bydd agweddau ac ymddygiad cadarnhaol yn helpu i sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n hyderus • bydd agweddau ac ymddygiad cadarnhaol yn addysgu'r plentyn am werthoedd (gonestrwydd, bod yn ddiolchgar, cariad, cwrteisi a pharch, haelioni, maddeuant a thosturi, cyfrifoldeb) • gallai agweddau ac ymddygiad negyddol achosi gofid a phryder i blant a theuluoedd • gallai agweddau ac ymddygiad negyddol achosi i'r plentyn ddod yn dawedog, yn dawel ac yn swil • gallai agweddau ac ymddygiad negyddol olygu na fydd y plentyn yn awyddus i fynychu'r lleoliad. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	2

<p>6.(a) (uned 3,1.12)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau. Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sut bydd staff meithrinfa Little Gems yn gallu defnyddio myfyrio i wella ymarfer. Dyfarnwch 2 marc am ddisgrifiad da â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut bydd staff meithrinfa Little Gems yn gallu defnyddio myfyrio i wella ymarfer. Dyfarnwch 3 marc am ddisgrifiad da iawn â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sut bydd staff meithrinfa Little Gems yn gallu defnyddio myfyrio i wella ymarfer.</p> <p>Gallai atebion gynnwys: Bydd myfyrio yn galluogi staff meithrinfa Little Gems i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • benderfynu ar y ffordd orau i wella'r amgylchedd • cynyddu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o brofiad neu sefyllfa • newid er gwell • nodi sut i weithredu i wella. <p>Gellir myfyrio drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • holi • gwerthuso • beth rydych yn ei wneud a pham • rhan bwysig o'r dysgu • edrych yn ôl. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>3</p>
<p>6.(b) (uned 3,6.13)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ymateb, hyd at uchafswm o 2 farc.</p> <ul style="list-style-type: none"> • gofyn i'r staff gofnodi gwybodaeth am eu harfer • ystyried datblygiad proffesiynol parhaus. 	<p>2</p>
<p>7.(a) (uned 3,2.2)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau. Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am rôl a chyfrifoldebau'r Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg. Dyfarnwch 2 marc am ddisgrifiad da â gwybodaeth a dealltwriaeth glir am rôl a chyfrifoldebau'r Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gofal a chymorth i deuluoedd â phlant o enedigaeth i 5 oed • gall dyletswyddau gynnwys: rhoi cyngor i rieni newydd ar fwydo babanod, hylendid, diogelwch a chysgu • gweithio'n agos â'r gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau eraill i ddiogelu ac amddiffyn plant. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>

<p>7.(b) (uned 3,3.3)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau. Dyfarnwch 1 marc am ymateb sylfaenol mewn perthynas â'r ffordd mae gwaith tîm yn cyfrannu at lesiant plant. Dyfarnwch 2 farc am ymateb manylach mewn perthynas â'r ffordd mae gwaith tîm yn cyfrannu at lesiant plant.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n rhoi cyfle i bawb rannu profiadau a fydd yn helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau i'r plentyn • mae'n helpu i sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd eu hangen ar gael i'r plentyn • mae'n gwella llesiant plant gan ei fod yn galluogi pawb i ddod i ddeall yn well beth yw anghenion y plentyn. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
<p>8. (uned 3,5.2)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau. Dyfarnwch 1 marc fesul disgrifiad hyd at uchafswm o 2 farc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid yw hyn yn adlewyrchu'n dda ar Little Gems • amhroffesiynol • amharchus • nid yw'n awgrymu eu bod yn hapus yn eu rôl • mater disgyblu. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
<p>9.(a) (uned 3,6.17)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau. Dyfarnwch 1 marc am esboniad sylfaenol. Dyfarnwch 2 farc am esboniad manylach sy'n cyfeirio at y staff a'r plant.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <p>Staff:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n annog hyder wrth siarad Cymraeg • mae'n golygu bod y Gymraeg yn teimlo'n fwy naturiol. <p>Plant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n annog hyder wrth wrando ar y Gymraeg • mae'n gwneud iddynt deimlo'n fwy cartrefol os mai Cymraeg yw eu hiaith arferol • mae'n cyflwyno iaith newydd iddyn nhw. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>

<p>9.(b) (uned 1,8.9)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc fesul rhwystr i gyfathrebu y gallai plentyn fod wedi'i brofi, hyd at uchafswm o 3 marc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gall fod ganddyn nhw broblem â'u clyw • gall fod ganddyn nhw anawsterau lleferydd • diffyg ysgogiad gartref i sgwrsio e.e. unig blentyn • sefyllfa o fewn teulu – weithiau mae ail blentyn yn cyfathrebu llai na'r plentyn cyntaf, neu yn achos rhai, mae'n cyfathrebu mwy na'r plentyn cyntaf • gall fod gwahaniaethau iaith a'r anhawster wrth ddeall acenion anghyfarwydd • gwahaniaethau diwylliannol – mae gan wahanol ddiwylliannau wahanol ffyrdd. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>3</p>
<p>Cyfanswm Uned 1: 9 marc, uned 3: 21 marc</p>		<p>30 marc</p>



Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Pecyn i Aseswyr Asesiad Mewnol (001/004) – Malik (Sampl)

Mae'r pecyn hwn i aseswyr yn cynnwys y canlynol:

- cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r aseswr
- copi o'r Pecyn i Ymgeiswyr
- y cynllun marcio.

Cyfarwyddiadau

Asesiad crynodol yw'r asesiad hwn er mwyn asesu unedau 001 a 004. Dim ond ar ôl cwblhau'r holl waith dysgu ar gyfer yr unedau hyn y dylai ymgeiswyr roi cynnig ar yr asesiad hwn.

Canlyniad yr asesiad yw **llwyddo/methu**. Mae cyfanswm o 30 o farciau ar gael. **Y marc llwyddo ar gyfer yr asesiad hwn yw 22.**

Mae'r asesiad yn cynnwys y canlynol:

- senario i'w ryddhau ymlaen llaw y mae'n rhaid ei roi i'r ymgeiswyr bythefnos cyn yr asesiad
- set o gwestiynau/tasgau i'r ymgeisydd eu sefyll. Mae 60 munud gan yr ymgeisydd i gwblhau'r cwestiynau/tasgau.

Rhaid i'r asesiad:

- gael ei farcio'n fewnol, gan staff â'r cymwysterau priodol, gan ddefnyddio'r cynlluniau marcio sydd wedi'u darparu. Gweler y fanyleb am fanylion o ran gofynion staff
- bod yn destun trefniadau sicrhau ansawdd mewnol, gan staff â'r cymwysterau priodol
- bod yn destun trefniadau sicrhau ansawdd/dilysu allanol gan CBAC
- cydymffurfio â'r **Amodau Asesu** isod.

Noder: lle cafodd ymatebion dilys ychwanegol eu derbyn gan y marciwr ar gyfer unrhyw gwestiwn; dylid eu cofnodi a'u cadw i'w rhannu â'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd allanol. Gwneir hyn er mwyn ategu trefniadau safoni ar draws canolfannau a bydd yn golygu ei bod yn bosibl ychwanegu ymatebion dilys ychwanegol at y cynlluniau marcio yn ddiweddarach.

Amodau asesu

Rhaid cwblhau'r asesiad hwn o dan yr amodau canlynol:

- Rhaid i'r amgylchedd lle mae'r asesiadau'n cael eu cwblhau fod yn amgylchedd sydd wedi'i reoli. Ni ddylid torri ar draws yr ymgeiswyr a/neu ddylanwadu arnyn nhw mewn unrhyw ffordd wrth iddyn nhw weithio ar y tasgau. Fodd bynnag, er nad yw'n ofynnol sicrhau goruchwyliaeth lawn neu barhaus; rhaid i'r ganolfan allu cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith.
- Gall ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau cyffredin a fyddai'n gallu bod ar gael mewn sefyllfaoedd 'bywyd go iawn', er enghraifft, cyfrifiaduron personol/gliniaduron, tabledi, geiriaduron, cyfrifianellau. Ni chaniateir ffonau symudol na dyfeisiau trosglwyddo/derbyn eraill ac nid yw ymgeiswyr yn cael defnyddio'r rhyngwyd yn ystod yr asesiad.
- Gall ymgeiswyr ddod â'r nodiadau maen nhw wedi'u gwneud ar y senario a ryddhawyd ymlaen llaw i'r asesiad. Dim ond dwy ochr A4 o nodiadau sy'n cael ei ganiatáu, a rhaid rhoi gwybod hyn i'r ymgeiswyr.
- Gall dysgwyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn terfynau amser yr asesiad. Ni ddylai aseswyr roi mewnbwn nac arweiniad i ddysgwyr yn ystod amser yr asesiad. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno.

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Asesiad Mewnol (001/004) – Malik (SampI) Pecyn i ymgeiswyr

Enw'r ymgeisydd:

Rhif yr ymgeisydd:

Enw'r ganolfan:

Rhif y ganolfan:

Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

Mae gennych **1 awr** i gwblhau'r asesiad hwn.

Mae'r cwestiynau yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar y senario sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw, y byddwch chi wedi ei gael. Mae copi o'r senario yn y pecyn.

- Mae pob cwestiwn yn orfodol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen drwy'r senario a'r cwestiynau yn ofalus cyn i chi ddechrau ateb y cwestiynau.
- Mae'n bosibl na fyddwch chi'n gyfarwydd â rhai o'r senarios, ond wrth ymateb, gallwch ddangos eich bod wedi defnyddio'r egwyddorion cyffredinol rydych chi wedi eu dysgu a dangos bod y senario yn berthnasol i bob lleoliad blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- Rhaid sicrhau mai eich gwaith **chi eich hun yn gyfangwbl** yw'r holl waith rydych chi'n ei gyflwyno. Nid ydych chi'n gallu cael unrhyw help gyda'r ymatebion rydych yn eu hysgrifennu drwy gydol yr asesiad hwn.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich holl waith ar ddiwedd **pob** sesiwn.
- Nid ydych yn cael mynd ag unrhyw ddeunyddiau heblaw am yr astudiaeth achos i ffwrdd gyda chi, ac ni fydd modd i chi weld y deunyddiau hyn rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi **llofnodi'r datganiad** ar ddiwedd pob sesiwn yn gweithio ar yr asesiad hwn.
- Os byddwch chi'n cwblhau'r cwestiynau ar bapur, ac yn gweld nad oes gennych ddigon o le, defnyddiwch bapur parhad, gan sicrhau eich bod wedi rhifo'r cwestiwn (cwestiynau) yn gywir.

At ddefnydd yr Aseswr yn unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc a Ddyfarnwyd
1.	2	
2.	1	
3.	2	
4.	2	
5.	3	
6.	8	
7.	4	
8.	4	
9.	4	
Cyfanswm	30	

Sylwadau'r Aseswr:

Senario – Malik

2016: Cafodd Malik ei eni yn y dref mae'n byw ynddi; 16 oed yw mam Malik, Sarah, a'i dad, Idris. Mae'r cwpl yn byw gyda mam Sarah ac mae hi'n rhoi llawer o gymorth iddyn nhw. Mae mam Sarah yn dilyn rhaglen dibyniaeth ar alcohol ar hyn o bryd ac yn gwneud yn dda iawn. Mae Sarah yn falch o weld ei mam yn gwneud yn dda, gan ei bod yn aml wedi gorfod edrych ar ei hôl ei hun wrth dyfu i fyny, oherwydd bod ei mam yn feddw.

2018: Mae Malik bellach yn 2 oed, nid yw'r tad yn bresennol erbyn hyn ac mae Sarah wedi gadael cartref ei mam oherwydd bod ei mam yn parhau i frwydro ei dibyniaeth ar alcohol.

Ar hyn o bryd, mae Sarah yn byw mewn hostel gan ei bod yn aros am dŷ gan Gymdeithas Tai.

Mae Sarah wedi bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'i hamodau byw yn ddiweddar, ac yn ei chael hi'n anodd delio â Malik ar ei phen ei hun. Mae'r Ymwelydd Iechyd wedi rhoi gwybodaeth iddi am sesiynau hyfforddi sy'n cael eu cynnal gan y rhaglen rhianta sy'n darparu cyfleusterau crèche i Malik.

Cyn dechrau defnyddio'r crèche, mae angen i Sarah lenwi ffurflen gofrestru sy'n gofyn cwestiynau am hoff bethau Malik, ei ddiwylliant, ei gredoau, cyfansoddiad y teulu (*family composition*), ei hanes meddygol a'i gyfeiriad.

Erbyn y 3^{ydd} sesiwn, mae gweithwyr y crèche yn sylwi bod Malik yn aml eisiau bwyd pan fydd yn cyrraedd, a bydd yn gofyn iddyn nhw yn aml am fwyd. Gan fod y staff yn brofiadol, maen nhw'n pryderu bod hyn o bosibl yn rhywbeth mae angen cadw llygad gofalus arno.

Gofynnir i rieni ddod â ffrwyth i'w plant ei fwyta yn ystod y sesiwn dwy awr ond mae mam Malik wedi anghofio dod â ffrwyth bob tro.

2019: Mae Malik bellach yn 3 oed ac yn mynychu ei 10^{fed} sesiwn yn y crèche; pan ddaeth hi â Malik yno, esboniodd y fam byddai ei phartner newydd yn dod i gasglu Malik. Roedd y partner newydd gyda hi ar y pryd. Mae Malik yn ymddangos yn ofidus iawn, sy'n anarferol. Mae'r fam yn sylwi ar hyn ac yn esbonio'n gyflym ei fod wedi dihuno'n gynnar a'i fod wedi blino. Wrth i'r staff fynd â Malik i'r ystafell chwarae, mae'n ei chael hi'n anodd setlo ac yn dechrau dweud "Dwi ddim yn ei hoffi, dwi ddim yn ei hoffi."

Mae gan un aelod o'r staff, Dan, berthynas dda iawn â Malik ac mae'n llwyddo'n gyflym i'w dawelu a'i lonyddu ac yn ei annog i gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau. Ond, wrth chwarae yn y gornel cartref a theulu, mae Malik yn ymddwyn mewn ffordd ymosodol iawn (*very aggressive*) gyda'r doliau. Mae'n gweiddi, "Rho'r gorau iddi, rho'r gorau iddi." (*Get off me, get off me*) Mae Dan yn penderfynu bod angen iddo dreulio ychydig mwy o amser gyda Malik yn ystod y sesiwn. Nid yw Dan yn holi Malik ond mae'n sicrhau bod cyfleoedd iddo siarad ag ef.

Roedd Malik yn ymddangos yn iawn tuag at ddiwedd y sesiwn, ond adeg casglu'r plant, mae Malik yn cynhyrfu fwy nag yr oedd wedi cynhyrfu i ddechrau. Yr oedd hyn yn edrych fel ymateb i'r ffaith bod partner newydd ei fam yn ei gasglu. Mae Malik yn sgrechian wrth adael y lleoliad. Mae'r staff yn cyfeirio at eu gweithdrefnau diogelu.

Mae Malik yn dod yn ôl y diwrnod wedyn, gyda'i fam. Mae ei fam yn mynd ar gwrs pum diwrnod o hyd i'w helpu i ddod o hyd i gyflogaeth fwy addas. Mae gweithiwr y crèche sy'n croesawu Malik i'r lleoliad yn sylwi bod cleisiau ar fraich y fam ac yn meddwl bod y fam ychydig yn dawelach nag arfer. Mae'r fam yn awyddus iawn i ddweud wrth y gweithwyr nad yw Malik yn ymddwyn yn ei ffordd arferol ar hyn o bryd a'i fod "wedi bod yn genfigennus (*jealous*) ers cyfarfod â'm partner gan mai dim ond fi a fe oedd cyn hynny, ac rydym wedi symud i dŷ newydd hefyd yn ddiweddar."

Rhoddodd mam Malik wybod iddyn nhw hefyd bod Malik wedi syrthio'r noson gynt a'i bod wedi mynd ag ef i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys leol. Roedd yn hercio rhywfaint ond nid oedd angen iddo gael unrhyw driniaeth bellach.

Yn ystod y sesiwn, mae Malik, unwaith eto, yn ymddangos yn groes i'w gymeriad ac unwaith eto, mae'n chwarae mewn ffordd ymosodol gyda'r doliau a hyd yn oed yn dechrau taro dwy ddol yn erbyn ei gilydd.

Mae Dan, sydd eisoes wedi trafod sefyllfa Malik gydag arweinydd ei ystafell, yn gwybod yn union beth sydd i'w ddisgwyl ganddo yn ei rôl. Unwaith eto, mae'n aros yn agos at Malik er mwyn ei helpu yn ystod y sesiwn ac yn sicrhau bydd amser ganddo i wrando pan fydd Malik yn awyddus i siarad.

Malik

Cwestiynau Asesu: Set A

Mae trawsnewid yn gallu cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lesiant plentyn.

1. Disgrifiwch effaith un trawsnewid mae Malik yn ei brofi mewn perthynas â'i lesiant. [2]

.....

.....

.....

.....

2. Amlinellwch **un** ffordd mae gweithwyr y crèche yn sicrhau eu bod yn trin Malik â pharch ac urddas (*dignity*). [1]

.....

.....

3. Esboniwch bwysigrwydd y teulu a phobl eraill wrth gefnogi llesiant plant. [2]

.....

.....

.....

.....

4. Esboniwch pam ei bod yn bwysig sicrhau bod gan y crèche wybodaeth am hoff bethau Malik, ei ddiwylliant, ei gredoau, cyfansoddiad y teulu, ei hanes meddygol a'i gyfeiriad. [2]

.....

.....

.....

.....

5. Mae Dan, sy'n weithiwr gofal plant profiadol, yn poeni am lesiant Malik. Disgrifiwch yr arwyddion a'r symptomau cam-drin mae Malik yn eu dangos ac sy'n golygu bod Dan yn credu bod risg i Malik o bosibl. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

6. Mae'n rhaid dilyn polisiau a gweithdrefnau pan fydd pryderon diogelu. Gofynnwyd i weithiwr gofal plant gwblhau adroddiad gyda'i Arweinydd Tîm er mwyn cofnodi'r pryderon sydd ganddyn nhw am Malik. Cwblhewch yr adrannau yn y tabl isod er mwyn dangos gwybodaeth am yr hyn mae angen ei ystyried wrth ysgrifennu'r adroddiad.

Enw'r Plentyn: Malik	
Dyddiad Geni: 24.4.2016	
(a)	Disgrifiwch sut dylid cofnodi pryderon amddiffyn plant a sut dylid rhoi gwybod amdany'n nhw yn ôl polisiau a gweithdrefnau safonol. [2]
	Cofnodi
	Rhoi gwybod amdany'n nhw
(b)	Nodwch pa wybodaeth dylid ei chofnodi a rhoi gwybod amdani a disgrifiwch ble dylid storio'r wybodaeth hon. [4]
	Cofnodi a rhoi gwybod amdani
	Storio
(c)	Amlinellwch y camau gweithredu i'w cymryd lle mae pryderon parhaus i'w cael neu lle nad yw pryderon wedi cael eu datrys ar ôl rhoi gwybod amdanynt. [2]

7. Esboniwch pam ei bod yn bwysig bod y crèche yn sefydlu perthnasoedd sy'n cefnogi ymddiriedaeth a chysylltiadau (*trust and rapport*) â'r plant, eu teulu a'u gofalwyr. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

8. Disgrifiwch **ddau** reswm pam ei bod o bosibl yn fwy tebygol bod Malik a'i fam, Sarah, yn wynebu risg o niwed neu gam-drin na phlant a theuluoedd eraill sy'n mynychu'r crèche. [4]

(i)

.....

.....

.....

.....

(ii)

.....

.....

.....

9. Cwblhewch y siart isod.

(a) Enwch **ddau** ddarn o deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol sy'n ymwneud â diogelu plant. [2]

(b) Disgrifiwch sut mae deddfwriaeth a pholisiau cenedlaethol yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau? [2]

Deddfwriaeth a pholisiau cenedlaethol	Disgrifiad o sut mae deddfwriaeth yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau
1.	
2.	

Cynllun Marcio – Cwestiynau Asesu Malik: Set A										
	Uned 1: Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed) ac Uned 4: Diogelu Plant	Papur Cwestiynau 1								
Cwestiwn (cyf y fanyleb)	Astudiaeth Achos	Cyfanswm								
1. (uned 1,11.2)	<p>Dyfarnwch 1 marc am enwi'r trawsnewid.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am bob disgrifiad o ffactorau sy'n gwneud y trawsnewid yn gadarnhaol neu'n negyddol.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Trawsnewid</th> <th>Ffactorau: cadarnhaol neu negyddol.</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Amodau byw yn newid</td> <td>ansicrwydd, ddim yn siŵr ble mae'r cartref, diffyg strwythur</td> </tr> <tr> <td>Dechrau mewn crèche</td> <td>meithrin sgiliau cymdeithasol, sicrhau parhad gofal, cael eu hamddiffyn</td> </tr> <tr> <td>Partner newydd yn ymddangos</td> <td>cenfigen, gallai fod risg, gallai fod o gymorth i'r fam, llai o barhad o ran gofal</td> </tr> </tbody> </table> <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	Trawsnewid	Ffactorau: cadarnhaol neu negyddol.	Amodau byw yn newid	ansicrwydd, ddim yn siŵr ble mae'r cartref, diffyg strwythur	Dechrau mewn crèche	meithrin sgiliau cymdeithasol, sicrhau parhad gofal, cael eu hamddiffyn	Partner newydd yn ymddangos	cenfigen, gallai fod risg, gallai fod o gymorth i'r fam, llai o barhad o ran gofal	2
Trawsnewid	Ffactorau: cadarnhaol neu negyddol.									
Amodau byw yn newid	ansicrwydd, ddim yn siŵr ble mae'r cartref, diffyg strwythur									
Dechrau mewn crèche	meithrin sgiliau cymdeithasol, sicrhau parhad gofal, cael eu hamddiffyn									
Partner newydd yn ymddangos	cenfigen, gallai fod risg, gallai fod o gymorth i'r fam, llai o barhad o ran gofal									
2. (uned 1, 4.7)	<p>Dyfarnwch 1 marc am unrhyw un ateb cywir.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> y staff yn treulio amser gyda Malik ddim yn ei holi ond bod ar gael i wrando arno cysylltu â'r fam yn hytrach na siarad â hi pan fydd Malik yno aelod o'r staff yn aros yn agos ato er mwyn ei gefnogi ac yn sicrhau bod amser i wrando arno. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	1								
3. (uned 1, 6.4)	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd teulu ac eraill wrth gefnogi llesiant plant.</p> <p>Dyfarnwch 2 marc am esboniad da â gwybodaeth a dealltwriaeth glir am bwysigrwydd teulu ac eraill wrth gefnogi llesiant plant.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> bydd yn helpu'r plant i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u caru, er mwyn sicrhau iechyd meddwl cadarnhaol rhyngweithio cymdeithasol – helpu i feithrin sgiliau cyfathrebu, lleferydd ac iaith darparu lloches – iechyd corfforol ac iechyd meddwl darparu bwyd – iechyd corfforol ymgysylltiad mewn gweithgareddau – iechyd corfforol, datblygiad cymdeithasol. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	2								

<p>4. (uned 1, 4.5)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n dangos pam mae'n bwysig bod gwybodaeth gan y crèche am ddewisiadau, diwylliant, credoau, cyfansoddiad y teulu, hanes meddygol a chyfeiriad Malik.</p> <p>Dyfarnwch 2 marc am esboniad da â gwybodaeth a dealltwriaeth glir sy'n dangos pam mae'n bwysig bod gwybodaeth gan y crèche am ddewisiadau, diwylliant, credoau, cyfansoddiad y teulu, hanes meddygol a chyfeiriad Malik.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diogelwch • sicrwydd • integreiddio • parchu gwerthoedd a chredoau'r teulu • deall anghenion ieched • bodloni anghenion y plentyn. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
<p>5. (uned 4, 1.4)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am bob ymateb, hyd at uchafswm o 3 marc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai Malik fod yn cael ei esgeuluso gan ei fod eisiau bwyd yn aml • Gallai Malik fod yn cael ei gam-drin yn gorfforol/emosynol gan fod arwyddion ei fod wedi bod yn dyst i ymddygiad ymosodol. • Gallai Malik fod yn cael ei gam-drin yn gorfforol/emosynol gan fod ei ymddygiad wedi newid yn y lleoliad yn ystod y dydd ac yn ystod cyfnodau gollwng • Gallai amharodrzydd Malik i fod gyda phartner newydd ei fam fod yn arwydd ei fod yn cael ei gam-drin • Gallai Malik fod yn cael ei gam-drin yn gorfforol gan ei fod wedi gorfod mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>3</p>
<p>6.(a) (uned 4, 1.8)</p>	<p>Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad o unrhyw bwynt dilys fel y nodir isod.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <p>Cofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wedi'i ysgrifennu mor fuan â phosibl ar ôl y digwyddiad / datgeliad er mwyn osgoi anghofio darnau allweddol o wybodaeth • ni ddylid ychwanegu unrhyw beth, torri ar draws, annog na dyfalu unrhyw beth mae'r plentyn wedi'i ddweud • defnyddio iaith glir a syml • bod yn gryno, yn ddarllenadwy ac yn gynhwysfawr • bod yn gywir o ran ffeithiau a gwahaniaethu rhwng ffeithiau, safbwynt, barn a damcaniaeth. <p>Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad cywir o ran pwy y dylid rhoi gwybod iddyn nhw am bryderon.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dylid rhoi gwybod i'r swyddog diogelu dynodedig yn y lleoliad/uwch aelod o staff ar unwaith • ni ddylid rhannu gwybodaeth â rhieni/gofalwyr <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>

<p>6.(b) (uned 4, 4.7)</p>	<p>(b) Pa wybodaeth dylid ei chofnodi a rhoi gwybod amdani?</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am bob eitem o wybodaeth dylid ei gofnodi a'i adrodd hyd at 2 farc ar y mwyaf.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni (neu oedran) y plentyn • dyddiad • amser y datgeliad / ysgrifennu'r adroddiad • math o bryder • arwyddion a symptomau sy'n peri pryder. <p>Ble dylid storio gwybodaeth?</p> <p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol o ble mae gwybodaeth yn cael ei storio.</p> <p>Rhowch 2 farc am ddisgrifiad da o ble mae gwybodaeth yn cael ei storio.</p> <ul style="list-style-type: none"> • bydd gwybodaeth yn cael ei storio mewn cwpwrdd/cabinet ffeilio wedi'i gloi • bydd gwybodaeth yn cael ei storio mewn cwpwrdd/cabinet ffeilio wedi'i gloi yn y lleoliad gofal plant • yn ôl polisïau a gweithdrefnau cyfrinachedd ac amddiffyn plant. • dylai fod mynediad cyfyngedig, dim ond uwch aelodau o staff ddylai gael mynediad at y wybodaeth. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p> <p>2</p>
<p>c) (uned 4, 4.3)</p>	<p>(c) Y camau gweithredu i'w cymryd lle mae pryderon parhaus neu lle nad yw pryderon wedi'u datrys ar ôl rhoi gwybod amdanynt.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am bob ymateb:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dilyn polisïau a gweithdrefnau'r cwmni • parhau i gofnodi digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt nhw i uwch aelodau o staff • atgyfeirio'n uniongyrchol at MASH neu LSCB • holi ynghylch unrhyw gyfeiriadau sydd wedi'u gwneud • cyfeirio at weithdrefnau amddiffyn plant Cymru gyfan • parhau i gefnogi'r plentyn. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
<p>7. (uned 4, 2.3)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am esboniad cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth pam mae'n bwysig bod y crèche yn sefydlu perthnasoedd sy'n cefnogi ymddiriedaeth a chysylltiad â phlant, eu teulu a'u gofalwyr.</p> <p>Dyfarnwch 2 farc am esboniad sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n dangos pam mae'n bwysig bod y crèche yn sefydlu perthnasoedd sy'n cefnogi ymddiriedaeth a chysylltiad â phlant, eu teulu a'u gofalwyr.</p> <p>Dyfarnwch 3 marc am esboniad da â gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n dangos pam mae'n bwysig bod y crèche yn sefydlu perthnasoedd sy'n cefnogi ymddiriedaeth a chysylltiad â phlant, eu teulu a'u gofalwyr.</p> <p>Dyfarnwch 4 marc am esboniad rhagorol â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl sy'n dangos pam mae'n bwysig bod y crèche yn sefydlu perthnasoedd sy'n cefnogi ymddiriedaeth a chysylltiad â phlant, eu teulu a'u gofalwyr.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <p>Plant:</p>	<p>4</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • mae'r plant yn dechrau meithrin eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a llesiant plant, nawr ac yn y dyfodol • mae'r plant yn dysgu'r sgiliau hyn drwy eu perthnasoedd pwysig • mae ymlyniadau cadarn yn meithrin perthnasau cryf. <p>Teulu a gofalwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhieni, nain a thaid/mam-gu a thad-cu neu ofalwyr maeth yw'r bobl bwysicaf ym mywydau plant ifanc – maen nhw'n eu hadnabod yn well na neb • ganddyn nhw mae'r plant yn dysgu am ddiwylliannau a chredoau crefyddol eu teulu • nhw yw athrawon cyntaf y plentyn a gallan nhw gael dylanwad grymus ar agweddau a datblygiad plentyn • mae'r plant yn teimlo'n fwy hyderus a chadarnhaol amdany'n nhw eu hunain a'u dysgu pan fydd y rhieni a'r unigolion sy'n gofalu amdany'n nhw'n cydweithio mewn awyrgylch o barch at ei gilydd • pan fyddwch yn gyfeillgar ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn y plant, daw'r rhieni i'ch hoffi ac i ymddiried ynoch, a gall parch tuag at eich gilydd ffynnu • mae'n hanfodol darparu'r gofal gorau. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	
8. (uned 4, 3.1)	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarwch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol yn nodi pam mae Malik a'i fam yn fwy tebygol o wynebu risg o niwed neu gam-drin.</p> <p>Dyfarwch 2 marc am ddisgrifiad manwl o bwysigrwydd pam mae Malik a'i fam yn fwy tebygol o wynebu risg o niwed neu gam-drin.</p> <p>Dyfarwch hyd at 2 marc yr un am unrhyw ddau awgrym.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cafodd Sarah ei hun ei hesgeuluso ac mae hyn yn aml yn cael ei ailadrodd • gallai dibyniaeth mam Sarah ar alcohol olygu nad oedd yn fodel rôl da • gall trefniadau byw Sarah ychwanegu at esgeulustod neu straen • mae'n ei chael hi'n anodd ymdopi â Malik ar ei phen ei hun a gall hynny ychwanegu straen at y sefyllfa ac arwain at gam-drin, mae'n bosibl bod Sarah yn ddig wrth Malik • tlodi sy'n golygu bod y ffaith nad oes digon o fwyd addas yn y cartref, nad oes digon o wres, diffyg teithiau i ffwrdd ac ati oll yn effeithio ar iechyd a llesiant • perthynas newydd; nid ydym yn gwybod llawer am gymeriad y partner. <p>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	4
9.(a) (uned 4, 1.5)	<p>Dyfarwch 1 marc am bob ateb cywir hyd at uchafswm o 2 marc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Plant 1989 a 2004 • Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 • Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 • Deddf Safonau Gofal 2000 • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. 	2

<p>9.(b) (uned 1, 2.2)</p>	<p>Rhowch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.</p> <p>Dyfarnwch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol o sut mae'r ddeddfwriaeth yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau.</p> <p>Dyfarnwch 2 marc am ddisgrifiad manylach o sut mae'r ddeddfwriaeth yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n sicrhau atebolrwydd gan unigolion • mae'n sicrhau atebolrwydd gan unigolion sy'n gyfrifol am barchu, amddiffyn a chyflawni hawl plentyn i gael ei amddiffyn. <p>Rhowch greddyd am unrhyw ymateb dilys arall.</p>	<p>2</p>
	<p>Cyfanswm Uned 1: 9 marc, Uned 4: 21 marc</p>	<p>30 marc</p>



Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon gyda'r dystiolaeth i'w dilysu.

Datganiad Dilysrwydd

Enw'r ymgeisydd

Rhif yr ymgeisydd

Enw'r ganolfan

Rhif y ganolfan

Ymgeisydd:

Rwy'n cadarnhau mai fy ngwaith i yw'r holl waith a gyflwynwyd, ac fy mod wedi cydnabod yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd gennyf.

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad

Tiwtor/Aseswr:

Rwy'n cadarnhau y gwnaed yr holl waith o dan amodau a gynlluniwyd i sicrhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd, ac rwy'n fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd.

Llofnod y Tiwtor/Aseswr:

Dyddiad

Noder:

Lle nad yw'r ymgeisydd a/neu'r tiwtor/aseswr yn gallu cadarnhau dilysrwydd, neu lle na fydd wedi gwneud hynny drwy lofnodi'r datganiad hwn, ni fydd y gwaith yn cael ei dderbyn i'w gymedroli a rhoddir marc o sero. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi ynghylch dilysrwydd, gellir cysylltu â'r tiwtor/aseswr er mwyn cael cyfiawnhad.